Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ynghylch *“Datblygu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i bennu Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol",* a oedd yn ceisio barn ar gynigion i sefydlu corff i negodi cytundebau cyflog teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ei strwythur, ei swyddogaethau a'i gwmpas. Nid oedd yr ymgynghoriad yn ceisio datblygu manylion unrhyw gytundeb cyflog teg, unrhyw lefel o gyflog na sut y byddai telerau ac amodau newydd yn cael eu gosod; cytunir ar y rhain drwy'r broses fargeinio.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 24 Chwefror 2026 a pharhaodd am 8 wythnos, gan ddod i ben ar 28 Ebrill 2026. Cafwyd 62 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan amrywiaeth o randdeiliaid a phartïon â diddordeb.

Camau i'w Cymryd

Er gwybodaeth yn unig.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Tîm y Gweithlu Gofal Cymdeithasol
Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth
Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
2 De A02
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: CCT.Cyswllt@llyw.cymru

Copïau ychwanegol

Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-datblygu-corff-negodi-gofal-cymdeithasol-i-gymru-i-bennu-cytundebau-cyflog-teg-ar

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2026-02/plaen-saesneg-cymdeithasol-cytundebau-cyflog-teg.pdf

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cynnwys

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad 3

Cyflwyniad 4

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid 5

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl cwestiwn 5

Casgliad/Camau Nesaf 38

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn bennaf fel ymarfer electronig gan ddefnyddio platfform ar-lein neu e-bost Llywodraeth Cymru i gofnodi'r ymatebion, ac roedd croeso i ymatebion ysgrifenedig hefyd. Defnyddiodd y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymarfer hwn (46 neu 73%) yr arolwg ar-lein ac ymatebodd 17 (27%) o'r ymatebwyr drwy e-bost i Lywodraeth Cymru.

O blith y rhai a ymatebodd, cyfrannodd y grwpiau canlynol at yr ymarfer:

Awdurdodau lleol	**2**
Cyrff cynrychioliadol	**5**
Undebau Llafur	**4**
Rheoleiddiwr	**1**
Elusen	**1**
Darparwyr gofal cymdeithasol	**21**
Unigolion	**29**
Cyfanswm	**63**

O blith yr 63 o ymatebion a gafwyd, pan ofynnwyd iddynt yn rhinwedd pa swydd roeddent yn ymateb i'r arolwg, cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (29) eu bod yn ymateb ar ran sefydliad. Dywedodd 27 o'r ymatebwyr eu bod yn unigolion yn rhannu barn a phrofiadau personol, ac ymatebodd 7 gan roi barn broffesiynol unigol.

Pan ofynnwyd iddynt yn rhinwedd pa swydd roedd yr ymatebwyr yn rhoi eu barn, atebodd 32 eu bod yn aelodau o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol; atebodd 3 eu bod yn gwneud hynny yn rhinwedd swydd broffesiynol arall; ac ymatebodd 1 fel comisiynydd gofal cymdeithasol. Nid atebodd 26 (41%) o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi nodi eu bod yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a oeddent yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd. Dywedodd 30 o ymatebwyr eu bod yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, gyda dim ond 3 yn ateb nad oeddent. Nid atebodd 28 (44%) o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd pa rolau ym maes gofal cymdeithasol yr oedd pobl yn gweithio ynddynt ar hyn o bryd, cawsom ystod eang o atebion o bob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, o weithwyr cartrefi gofal i therapyddion galwedigaethol, gweithwyr gofal cartref i nyrsys cofrestredig, rheolwyr a rolau cymorth eraill. Er nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (27) wedi ateb y cwestiwn hwn, cawsom yr ymatebion canlynol gan weithwyr yn y rolau canlynol: 9 gweithiwr cartrefi gofal; 6 gweithiwr gofal cartref; 6 rôl arall sy'n gysylltiedig â gofal; 44 o rolau eraill sy'n gysylltiedig â darparu gofal; 3 arweinydd tîm; 2 mewn llety diogel; ac 1 ymateb yr un gan gartref plant, therapydd galwedigaethol, nyrs gofrestredig, rheolwr cartref gofal, rheolwr gofal cartref, rheolwr cofrestredig a rôl gymorth arall.

Cyflwyniad

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori yn gofyn am farn ar gynigion i sefydlu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru i negodi Cytundebau Cyflog Teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol, gan gynnwys ei strwythur, ei swyddogaethau a'i gwmpas. Mae'r ymarfer yn llifo o ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU i gyflwyno proses Cytundeb Cyflog Teg ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn Lloegr fel rhan o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 2025, sy'n cynnwys cymalau a fydd yn golygu y gellir creu Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru. Mae hwn yn gam arwyddocaol tuag at greu gweithlu cynaliadwy. Mae'r Cytundeb Cyflog Teg yn cynnig ffordd ymarferol ac egwyddorol o fynd i'r afael â'r heriau hirsefydlog y mae'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn eu hwynebu, wedi'i ategu gan y sicrwydd cyfreithiol gofynnol i sicrhau newid ystyrlon.

Roedd y ddogfen yn gofyn cyfres o gwestiynau a oedd yn archwilio syniadau ynghylch sut y byddai'r Corff Negodi yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu, ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei gylch gwaith (er enghraifft, pennu materion ychwanegol yn ymwneud â chyflogaeth fel gweithiwr yn y sector gofal cymdeithasol); pennu sut y caiff materion eu hystyried; nodi'r broses ar gyfer datrys anghydfodau; a sut y byddai ei gytundebau'n cael eu cadarnhau, fel bod iddo rym cyfreithiol a'i fod yn cael ei gymhwyso i gontractau gweithwyr.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda'n grŵp rhanddeiliaid allweddol, sef y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, i ddatblygu cwestiynau'r ymgynghoriad. Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolaeth o bob rhan o ofal cymdeithasol ac mae'n cynnwys undebau llafur, cynrychiolwyr cyflogwyr, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru.

Roedd y gyfres o ddogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg a Saesneg yn y ddolen ganlynol i wefan Llywodraeth Cymru:

https://www.llyw.cymru/datblygu-corff-negodi-gofal-cymdeithasol-i-gymru-i-bennu-cytundebau-cyflog-teg-ar-gyfer-y-gweithlu

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cafodd yr ymgynghoriad ei lansio'n gyhoeddus gan y cyn Weinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden AS, yn ystod ei datganiad i'r Senedd ar 24 Chwefror 2026, lle gwahoddodd y sector, yr holl randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd ehangach i "… *ymateb i sicrhau bod canfyddiadau'n llunio'n camau nesaf*[1]."

Yn ogystal, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy weminar addysgiadol ar 18 a 24 Mawrth 2026 ac aeth i nifer o gyfarfodydd dan arweiniad rhanddeiliaid i roi rhagor o eglurder ac ateb unrhyw gwestiynau am yr ymarfer ymgynghori.

Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn ôl cwestiwn

Mae'r adran hon yn darparu dadansoddiad manwl o'r 63 o ymatebion, ynghyd â chrynodeb o'r atebion i bob cwestiwn, gan gynnwys y cwestiynau hynny sy'n ymwneud â'r materion penodol a godwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Mae'n bwysig nodi, er bod y dadansoddiad yn nodi nifer yr ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn, bod rhai cyflwyniadau wedi'u gwneud ar ran sefydliadau cynrychioliadol. Felly, gall un ymateb adlewyrchu barn a phrofiadau grŵp ehangach o unigolion neu sefydliadau.

Roedd cwestiynau 1 – 22 yn ymwneud â demograffeg y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a gellir dod o hyd i ragor o fanylion am y rheiny yn Atodiad A.

C23. Gwnaethom gynnig dau opsiwn a allai o bosibl ddiwallu'r anghenion o ran ffurfio'r Corff Negodi. Bydd Gweinidogion perthnasol Cymru yn cymeradwyo sefydliadau allweddol penodol i eistedd ar y Corff Negodi ac yn penodi Cadeirydd annibynnol ar gyfer unrhyw un o'r opsiynau canlynol.

Pa opsiwn rydych yn ei gefnogi?

Opsiwn 1 - pwyllgor arbenigol sy'n rhoi cyngor arbenigol annibynnol i'r llywodraeth, gan adeiladu ar ein diwylliant a'n dull partneriaeth presennol yng Nghymru, a fyddai'n sicrhau bod y cydweithio sy'n digwydd rhwng rhanddeiliaid yng Nghymru yn parhau, neu

Opsiwn 2 - corff cyhoeddus anadrannol sy'n gweithredu ar hyd braich oddi ar Lywodraeth Cymru.

Opsiwn 3 - dim un

Opsiwn 4 - arall

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid model pwyllgor arbenigol (24 ymateb) neu fodel Corff Cyhoeddus Anadrannol ffurfiol (20 ymateb).

[1] llinell 244 https://record.assembly.wales/Plenary/15758?lang=cy-GB

Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r pwyllgor arbenigol roi sylwadau ychwanegol. Fodd bynnag, roedd y nifer bach a wnaeth hynny yn cyfeirio at yr angen am gynrychiolaeth gref ar draws y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys unigolion sy'n deall costau rhedeg busnes gofal ac sydd â phrofiad o negodi graddfeydd cyflog teg.

Roedd y rhai a oedd yn ffafrio *fformat Corff Cyhoeddus Anadrannol* o'r farn y byddai hyn yn helpu i sicrhau atebolrwydd, tryloywder, tegwch a didueddrwydd, gyda chymorth ysgrifenyddiaeth yr un mor ddiduedd ac annibynnol. Mynegwyd pryderon y gallai rôl Llywodraeth Cymru fel lluniwr polisïau a chyllidwr greu gwrthdaro buddiannau o dan fodel pwyllgor arbenigol.

Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at y ffaith bod proses y Corff Negodi yn canolbwyntio ar gyflog teg, na ellid ei ystyried ar ei ben ei hun heb ddiwygiadau comisiynu a chyllido cyfatebol.

Dywedodd 5 ymatebydd nad oedd "*dim un"* yn addas, ond dim ond 2 a roddodd resymau tebyg i'r rhai a amlinellwyd uchod o ran bod yn annibynnol ar y Llywodraeth, gyda threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd cadarn ar waith, a'r angen i'r aelodau feddu ar brofiad cytbwys o'r sector a dealltwriaeth drylwyr ohono.

Dewisodd 2 ymatebydd "*arall*". Galwodd un am gynnwys Therapyddion Galwedigaethol a Choleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol yng nghylch gwaith ac aelodaeth y Corff Negodi. Roedd y llall yn cefnogi cyflog teg mewn egwyddor, ond yn mynegi pryderon ynghylch y goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd darparwyr, comisiynu a chydymffurfiaeth reoliadol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cynnal annibyniaeth, yn ogystal â hyder cyflogwyr, gweithwyr a rhanddeiliaid ehangach, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Negodi weithredu hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, ond gan barhau i fod yn destun atebolrwydd democrataidd clir. O ganlyniad, byddwn yn sefydlu'r Corff Negodi fel corff cyhoeddus anadrannol cynghori.

Bydd y Corff Negodi yn darparu mecanwaith ffurfiol ar gyfer negodi materion y gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd yn hwyluso negodiadau ac yn cyflwyno argymhellion i Weinidogion Cymru i'w hystyried. Er y bydd Gweinidogion Cymru yn parhau i fod yn atebol i'r Senedd am y fframwaith polisi cyffredinol, ni fyddant yn ymyrryd yn y broses o gynnal negodiadau, gan alluogi'r Corff Negodi i weithredu gyda'r annibyniaeth ofynnol i feithrin ymddiriedaeth a hygrededd ar draws y sector.

C24 - Pa gynnig rydych yn ei gefnogi i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu cynrychioli'n briodol ar y Corff Negodi?

Opsiwn 1 - Cynnwys TUC Cymru, ochr yn ochr ag Unsain, GMB a'r Coleg Nyrsio Brenhinol

Opsiwn 2 - Dim ond cynnwys cynrychiolwyr o undebau llafur annibynnol sy'n seiliedig ar aelodaeth: Unsain, GMB a'r Coleg Nyrsio Brenhinol gyda TUC Cymru yn gweithio fel cynullydd gan sicrhau bod undebau llafur yn y maes gofal cymdeithasol yn cydgysylltu ac yn cyfathrebu â'i gilydd yn effeithiol.

Opsiwn 3 - Dim un

Opsiwn 4 – Ddim yn gwybod

Opsiwn 5 - Arall

Roedd 22 o'r ymatebwyr o'r farn mai *Opsiwn 2* oedd y dewis cywir, gan fod y dull hwn yn cydnabod yn briodol rôl undebau llafur sy'n seiliedig ar aelodaeth ac sy'n atebol yn ddemocrataidd mewn negodiadau, gan sicrhau ar yr un pryd broses gydgysylltu effeithiol drwy TUC Cymru.

Awgrymodd 20 o'r ymatebwyr mai *Opsiwn 1* oedd y dewis gorau, ond ni wnaeth yr un ohonynt sylw ynghylch pam y dylai TUC Cymru hefyd fod yn aelod â hawl i bleidleisio o'r Corff Negodi.

Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw at yr angen i gael cynrychiolaeth ar draws pob sector ym maes gofal cymdeithasol – h.y. sefydliadau annibynnol (neu o'r sector preifat), gwirfoddol ac nid-er-elw. Roedd cydnabyddiaeth bod dylanwad undebau llafur yn gryfach ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus. Felly, gallai fod angen creu cydweithrediaeth ar gyfer y grwpiau hyn er mwyn clywed eu lleisiau a sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli'n gyfartal os nad oeddent am ymuno ag undeb llafur cydnabyddedig.

16 ymateb ar draws y 3 opsiwn olaf yn y grŵp hwn: Darparodd *"Dim un"*, *"Ddim yn Gwybod,"* ac *"Arall"* amrywiaeth o safbwyntiau tebyg a oedd yn nodi na allai undebau llafur, oherwydd eu hôl troed bach canfyddedig yn y sector, gynrychioli barn yr holl weithwyr yn gywir. Roedd 1 ymatebydd o'r farn y dylid parhau i adolygu'r aelodaeth, gan sicrhau bod y Corff Negodi yn ymgysylltu â'r sector ei hun, yn hytrach na dibynnu ar ei aelodau yn unig.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig a nodir yn opsiwn 2. Bydd TUC Cymru yn gweithredu fel cynullydd ar gyfer UNSAIN, GMB a'r Coleg Nyrsio Brenhinol er mwyn ffurfio grŵp undebau llafur i eistedd ar y Corff Negodi.

Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i nifer cyfartal o seddi ar y Corff Negodi gael eu dyrannu i gynrychiolwyr undebau llafur a chyflogwyr. Bydd Gweinidogion Cymru yn gwahodd y grŵp undebau llafur i enwebu unigolion ac yna byddant yn adolygu'r enwebiadau ac yn penodi aelodau yn unol â hynny.

Bydd aelodau'r grŵp hwn yn cael eu penodi cyn i'r negodi ddechrau.

C25 – Fforwm Gofal Cymru a'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol yw'r sefydliadau cynrychioli cyflogwyr sy'n cynrychioli darparwyr gofal

cymdeithasol ar hyn o bryd ar y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?

Roedd 11 o'r ymatebwyr yn *cytuno'n gryf* a 22 ymatebydd arall yn *cytuno* â'r cynnig hwn. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod y fforymau sy'n cynrychioli darparwyr gofal cymdeithasol wedi'u sefydlu'n gadarn a bod gan bartneriaid gofal cymdeithasol hyder ynddynt. Roedd cytundeb sylweddol bod angen cynrychioli'r ystod lawn o wasanaethau gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y sector yn cael ei chlywed a'i deall.

Fodd bynnag, roedd sawl un o'r ymatebwyr yn pryderu nad oedd gan gyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol yr un lefel o arbenigedd mewn negodiadau â'u cymheiriaid yn yr undebau llafur; ac roeddent yn cwestiynu sut y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r broses hon. Roedd yr ymatebion eraill yn cynnwys y farn y dylai'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol a Fforwm Gofal Cymru oruchwylio'r mecanwaith ar gyfer ethol cynrychiolwyr cyflogwyr i'r Corff Negodi, er mwyn sicrhau bod yr ystod eang o ddarparwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cynrychioli.

Nododd 14 o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd rhai o'r farn, drwy beidio â bod yn aelodau o'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol na Fforwm Gofal Cymru, na fyddent yn cael eu cynrychioli'n deg. Ailbwysleisiodd rhai y bwriad bod angen nifer cyfartal o seddi ar y Corff Negodi yn cynrychioli barn cyflogwyr a gweithwyr er mwyn sicrhau bod lleisiau'r ddwy ochr yn cael eu clywed yn deg, a bod yn rhaid ystyried cyflog teg ochr yn ochr â phrisio teg.

Roedd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu a ddewisodd "arall" yn cwestiynu ai'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol oedd y model cywir ar gyfer corff negodi cyflogau, gan nodi pryderon ynghylch cynrychiolaeth annigonol o'r sector annibynnol a gwrthdaro buddiannau posibl pe bai gan gomisiynwyr yr un pwerau â chyflogwyr.

Galwodd rhai am gynrychiolaeth gryfach o sectorau penodol ym maes gofal cymdeithasol, ac awgrymodd eraill y dylid sefydlu paneli cynghori er mwyn sicrhau bod lleisiau o'r sector ehangach yn cael eu clywed. Neges allweddol oedd y dylai unrhyw gorff negodi cyflogau gael ei ategu gan ddiwygiadau ehangach i brosesau comisiynu, cynaliadwyedd a threfniadau rheoleiddio.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'n gryf bwysigrwydd cynrychiolaeth cyflogwyr ac yn pwysleisio y dylai cynrychiolwyr cyflogwyr adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth cyflogwyr gofal cymdeithasol ar draws y sector. Bydd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod nifer cyfartal o seddi ar gyfer cynrychiolwyr undebau llafur a chyflogwyr.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gwahodd y sefydliadau sy'n cynrychioli cyflogwyr a nodwyd uchod i enwebu aelodau o sefydliadau perthnasol i'r Corff Negodi, gan sicrhau bod cyflogwyr ym maes gofal cymdeithasol yn cael eu cynrychioli'n briodol ac yn gymesur, ac yna byddant yn adolygu'r enwebiadau'n annibynnol ac yn penodi aelodau yn unol â hynny.

C26 - Pa un o'r ddau opsiwn a gynigiwyd ar gyfer cynnwys llywodraeth leol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn y broses Cytundebau Cyflog Teg rydych yn ei gefnogi?

- **Opsiwn 1 – Mae cyflogwyr, undebau llafur, llywodraeth leol a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael hawliau pleidleisio llawn**
- **Opsiwn 2 – Mae cyflogwyr ac undebau llafur yn cael hawliau pleidleisio llawn gyda llywodraeth leol a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rôl gynghori.**

Dewisodd 29 o'r ymatebwyr *Opsiwn 1* gan gydnabod pwysigrwydd yr holl rolau penodedig yn y broses hon a'r angen i bob parti gydweithio i gyflawni'r nod hwn.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn cydnabod rôl statudol llywodraeth leol, ond hefyd yn tynnu sylw at ei rôl fel cyflogwr, darparwr gwasanaethau a chomisiynydd gwasanaethau, a allai fod o fantais neu greu gwrthdaro wrth negodi. Gwnaethant awgrymu na fyddai statws cynghori yn unig yn ddigonol, gan na fyddai'n cydnabod atebolrwydd cynghorau am ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Byddai aelodaeth lawn, ar y llaw arall, yn gyson ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol, gan sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am weithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses o wneud penderfyniadau.

Dewisodd 19 ymatebydd *Opsiwn 2,* gan nodi'r angen i gomisiynwyr gael rôl gynghori. Awgrymwyd y dylai comisiynwyr ddarparu tystiolaeth ffurfiol i'r Corff Negodi i ddangos sut maent yn asesu fforddiadwyedd, parodrwydd i gomisiynu a chynaliadwyedd y farchnad.

Mynegwyd pryderon ynghylch cyllid ac a oedd arian wedi'i neilltuo i sicrhau y gellid darparu Cytundebau Cyflog Teg. Roedd yr ymatebwyr yn tynnu sylw at bryderon ynghylch a yw'r lefelau cyllido presennol a ddyrennir gan awdurdodau lleol yn adlewyrchu'n llawn y costau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol, a'r effaith y gall hyn ei chael ar gynaliadwyedd y farchnad. Er bod mentrau megis y Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol yn cael eu croesawu fel camau pwysig tuag at hyrwyddo ymarfer da, nododd yr ymatebwyr y bydd yn cymryd amser i'r diwygiadau hyn ddod yn rhan annatod o'r broses ac y gellid effeithio ar eu heffeithiolrwydd os na chaiff unrhyw drefniadau newydd eu cefnogi gan gyllid priodol.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai dim ond rhwng gweithwyr a chyflogwyr y gellir ymgymryd â chydfargeinio ac, os nad oedd staff a gyflogir gan awdurdodau lleol wedi'u cynnwys o fewn y cwmpas, y byddai rhoi hawl lawn i bleidleisio i lywodraeth leol yn cymylu'r ffiniau rhwng ei rôl fel cwsmer a chomisiynydd, yn hytrach nag fel cyflogwr. Roedd un ymatebydd hefyd yn ofni y gallai hyn gymylu'r ffiniau rhwng cydfargeinio a phartneriaeth gymdeithasol.

O'r deg ymateb sy'n weddill, dewisodd dau "*Dim un"*, dewisodd pump *"Ddim yn Gwybod"*, a dewisodd tri *"Mae'n well gennyf beidio â dweud".* Roedd yr ymatebwyr

yn cydnabod y rôl bwysig y gallai llywodraeth leol a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ei chwarae yn y broses, ond gwnaethant bwysleisio bod yn rhaid i unrhyw Gytundebau Cyflog Teg gael cysylltiad agos â phenderfyniadau comisiynu ac ariannu. Y prif bryder oedd y gallai cytundebau cyflog gael canlyniadau anfwriadol o ran cynaliadwyedd darparwyr gofal os na chaiff costau ychwanegol eu hadlewyrchu yn y ffioedd comisiynu. Tynnodd sawl ymatebydd sylw hefyd at yr angen am rolau clir a thryloywder, ynghyd â'r angen i ystyried y gwahaniaethau rhwng marchnadoedd lleol, ac roedd nifer bach yn cwestiynu a oedd angen Corff Negodi neu'n mynegi pryderon ynghylch achosion posibl o wrthdaro buddiannau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar ôl ystyried yr ymatebion a'r safbwyntiau a fynegwyd ynghylch rolau priodol CLlLC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, rydym yn cynnig na ddylai'r sefydliadau hyn gael hawliau pleidleisio, gan adlewyrchu eu safle fel comisiynwyr a chwsmeriaid yn hytrach na chyflogwyr.

Fodd bynnag, gan gydnabod y rôl hanfodol y mae llywodraeth leol yn ei chwarae yn y broses weithredu ac er mwyn sicrhau bod ei barn, ei gwybodaeth a'i phrofiad yn cael eu cynnwys wrth negodi, byddwn yn sefydlu proses glir ar gyfer ymgysylltu a dylanwadu. Bydd hyn yn rhoi sawl cyfle i'r Corff Negodi ymgysylltu â llywodraeth leol drwy gydol y broses negodi.

Byddwn yn gweithio gyda CLlLC i ddatblygu rôl ymgynghorol wedi'i diffinio'n glir ar gyfer llywodraeth leol, gan gynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Bydd llywodraeth leol yn cael cyfle i ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i'r Corff Negodi ar ddechrau'r trafodaethau i lywio ei ystyriaethau. Yn ogystal, bydd y Cytundeb Cyflog Teg yn cael ei rannu â llywodraeth leol cyn i'r Gweinidogion lofnodi, gan eu galluogi i roi adborth a sicrhau bod eu barn yn cael eu hystyried fel rhan o drafodaethau Gweinidogion ar y Cytundeb arfaethedig.

C27 - A ydych yn cytuno y dylai fod gan Lywodraeth Cymru rôl gynghori (heb hawliau pleidleisio) fel rhan o'r Corff Negodi Gofal Cymdeithasol i Gymru?

Atebodd 50 o'r ymatebwyr *"ydw"* i'r cynnig hwn. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai fod gan Lywodraeth Cymru rôl gynghori yn y broses, fel y llunwyr polisïau a'r ysgogwyr allweddol ar gyfer cyllid a rheoleiddio. Awgrymodd rhai ymatebwyr y byddai rhoi hawliau pleidleisio i Lywodraeth Cymru yn tanseilio annibyniaeth y Corff Negodi i negodi cytundeb cyflog teg. Roedd sawl un o'r farn bod angen i gydfargeinio gwirioneddol fod yn annibynnol ar y llywodraeth, ond roeddent yn dadlau mai ei rôl oedd sicrhau bod cyllid tryloyw a digonol ar gael i gyflawni drwy ddull a oedd yn gwarantu ei fod yn cyflawni ar gyfer pob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, a bod trefniadau gorfodi cadarn a chynhwysfawr ar waith. Cyfeiriodd rhai at y problemau gyda'r Cyflog Byw Gwirioneddol fel enghraifft o sefyllfa lle nad oedd hyn wedi digwydd, gan nodi y dylid dysgu gwersi o hynny.

Dywedodd wyth ymatebydd “*Nac ydw*” i’r cynnig hwn, ond dim ond tri ohonynt a ategodd eu gwrthwynebiad gan nodi pwyntiau megis a oedd angen Corff o’r fath o gwbl, cyfreithlondeb gosod graddfeydd cyflog ar y sector a’r dulliau o ariannu hyn.

Ni wnaeth pum ymatebydd ddychwelyd ymateb i'r cynnig hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Corff Negodi mewn rôl gynghori fel llunwyr polisïau ond ni fydd ganddi unrhyw ddylanwad na hawliau pleidleisio.

C28 - Yn eich barn chi, a oes unrhyw sefydliadau eraill a ddylai fod yn aelodau o'r Corff Negodi, yn ychwanegol at y cynrychiolwyr gweithwyr a chyflogwyr a gynigiwyd?

Atebodd 18 o'r ymatebwyr *"oes"* i'r cynnig hwn. Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod yna grwpiau eraill a ddylai gael rôl yn y Corff Negodi, ond yn fwy fel panel cynghori yn hytrach na rôl uniongyrchol yn y broses negodi. Byddai'r panel hwn yn cefnogi'r Corff Negodi gydag ymchwil, profiadau bywyd a data, ac yn cynnwys fel aelodau cynrychiolwyr o'r Sefydliad Cyflog Byw Gwirioneddol, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Home Care Voices, Comisiynwyr y GIG, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, Llais, y Comisiynydd Pobl Hŷn, Iechyd Cyhoeddus Cymru a busnesau bach a chanolig. Roedd rhai o’r farn y dylai’r paneli cynghori hefyd gynnwys mwy o leisiau unigol – h.y. lleisiau gweithwyr, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr – gan fod angen ystyried eu profiadau fel rhan o’r broses negodi.

Er eu bod yn cytuno y dylid cael paneli cynghori, roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai rôl y paneli hyn ddylai darparu cyngor ac ymchwil, gan mai cynrychiolwyr cyflogwyr ac undebau llafur yn unig a ddylai fod yn aelodau o'r Corff Negodi.

Atebodd 12 o'r ymatebwyr *“Nac oes”* i’r cynnig hwn ond ni wnaethant egluro pam.

Atebodd 28 o'r ymatebwyr *“Ddim yn gwybod"* i'r cynnig hwn. O blith y rheiny, dim ond dau a ddarparodd wybodaeth ategol, gydag un ohonynt yn lleisio'r angen i sicrhau y dylid cynnwys lleisiau defnyddwyr gwasanaethau neu eu cynrychiolwyr, a'r ail yn tynnu sylw at bryderon y gallai'r Corff Negodi ddod yn rhy fawr ac arafu'r broses. Byddai adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd yn helpu i'w gadw'n berthnasol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Ar gyfer y cylch cyntaf o negodiadau, ni fydd Llywodraeth Cymru yn penodi unrhyw aelodau ychwanegol i'r Panel Negodi, heblaw am yr aelodau craidd fel y nodir uchod. Diben hyn yw sicrhau bod cynrychiolwyr undebau llafur a chyflogwyr yn arwain negodiadau, yn unol ag egwyddorion bargeinio sectorol.

Rydym yn cydnabod y gallai'r Cadeirydd ac aelodau'r Corff Negodi ddymuno tynnu ar arbenigedd eraill yn ystod y broses negodi. Felly, bydd y rheoliadau'n galluogi Gweinidogion Cymru i benodi aelodau heb hawliau pleidleisio i gefnogi'r Corff

Negodi yn ôl y gofyn. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Corff Negodi sicrhau bod barn y rhai sy'n cael gofal yn cael ei hadlewyrchu yn y broses, gan ddefnyddio unrhyw ymchwil neu ddata perthnasol i gefnogi'r broses negodi.

C29 - Sut y dylai buddiannau pobl sy'n talu am eu gofal eu hunain gael eu hystyried fel rhan o'r broses negodi? (Dewisol)

Nid atebodd 34 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd gan y rhai a ymatebodd safbwyntiau cymysg. Roedd rhai o'r farn y dylai lleisiau unigolion a dalodd am eu gofal eu hunain (neu unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain) gael eu clywed fel rhan o'r broses hon, gan nodi pryderon y gallai Cytundebau Cyflog Teg gynyddu costau'n anghymesur i'r grŵp hwn sydd eisoes yn aml yn talu ffioedd uwch na defnyddwyr gwasanaethau a ariennir yn gyhoeddus. Galwodd rhai am asesiadau effaith penodol ac ymarferion modelu ariannol er mwyn deall yr effeithiau posibl. Awgrymodd rhai y dylid cael mewnbwn gan banel cynghori sy'n cynnwys unigolion, darparwyr gofal sy'n gweithredu mewn marchnadoedd cymysg, a sefydliadau gwirfoddol.

Fodd bynnag, nid oedd consensws ar y ffordd orau o sicrhau cynrychiolaeth. Roedd yr awgrymiadau'n amrywio o gasglu safbwyntiau drwy dystiolaeth a gyflwynir i helpu'r broses negodi, i gynrychiolaeth gan ddarparwyr gofal, grwpiau defnyddwyr, a sefydliadau eirioli, panel cynghori pwrpasol, neu drwy sianeli ymgysylltu presennol megis Arolygiaeth Gofal Cymru.

Roedd nifer bach o'r ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith y gallai unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ac sy'n cyflogi cynorthwywyr personol fod yn gyflogwyr eu hunain, ac y dylent naill ai gael eu cynrychioli felly neu gael gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau sy'n effeithio arnynt.

Nid oedd pawb o blaid cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Awgrymodd rhai ymatebwyr na ddylai unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ddylanwadu ar benderfyniadau ar gyflog y gweithlu, ac roedd eraill o'r farn bod cynrychiolaeth uniongyrchol ar y Corff Negodi yn amhriodol neu'n achos posibl o wrthdaro buddiannau.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd deall effaith bosibl Cytundebau Cyflog Teg ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. I gefnogi hyn, bydd y llythyr cylch gwaith i'r Corff Negodi yn ei gwneud yn ofynnol ystyried fforddiadwyedd i bob prynwr gofal, gan gynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, a bydd gofyn manteisio ar unrhyw wybodaeth ac ymchwil berthnasol sydd ar gael.

C30 - Sut y dylai buddiannau comisiynwyr y GIG gael eu hystyried fel rhan o'r broses negodi? (Dewisol)

Nid atebodd 41 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylai comisiynwyr y GIG chwarae rôl gynghori debyg i'w cymheiriaid mewn llywodraeth leol yn y broses hon, gan y byddant hwythau hefyd yn cyflogi darparwyr gofal cymdeithasol a'u gweithwyr er mwyn helpu i ddarparu gofal. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol dod â chysondeb a chydweddiad i bolisïau'n ymwneud â'r gweithlu a chyflogau ym maes gofal cymdeithasol. Rhybuddiodd rhai lleisiau fod angen asesiadau effaith i fodelu'r effaith ar bennu ffioedd a chynaliadwyedd gwasanaethau, gan y gall y cyflogau yn y GIG gynyddu symudiad staff yn anfwriadol a gwanhau gwasanaethau cymunedol.

Teimlai rhai y gallai Cytundebau Cyflog Teg fod yn sbardun ar gyfer mwy o aliniad rhwng arferion comisiynu llywodraeth leol a'r GIG, a all arwain at wasanaethau mwy integredig sy'n meithrin cynaliadwyedd ac yn gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau.

Er bod rôl comisiynwyr y GIG o ran darparu gwybodaeth yn cael ei chydnabod, mynegwyd pryderon ynghylch rhoi rôl fwy manwl iddynt o fewn y Corff Negodi. Roedd y pryderon hyn yn adlewyrchu barn bod gan gomisiynwyr ddiddordeb mewn rheoli cost gofal ac y gallai hyn greu tensiynau o fewn y broses cydfargeinio. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch effaith dulliau pennu ffioedd ar gyllid ar gyfer anghenion gofal mwy cymhleth.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Nid ydym yn cynnig penodi aelodau ychwanegol o'r Corff Negodi i gynrychioli buddiannau comisiynwyr y GIG. Yn hytrach, bydd buddiannau comisiynwyr y GIG yn cael eu hystyried drwy drefniadau amgen, gan gynnwys:

- cylch gwaith i'r Corff Negodi ystyried fforddiadwyedd ar gyfer pob prynwr gofal, gan gynnwys comisiynwyr y GIG;
- sefydlu cyfleoedd ymgysylltu ar gyfer comisiynwyr y GIG drwy gydol y broses negodi, dan arweiniad Cadeirydd ac ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi; ac
- asesu'r effeithiau ar gomisiynwyr y GIG drwy asesiadau effaith cyhoeddedig yn dilyn cytuno ar Gytundeb Cyflog Teg.

C31 - Yn eich barn chi, a oes unrhyw feini prawf penodol y dylai Gweinidogion Cymru eu hystyried wrth benodi aelodau i'r Corff Negodi?

Atebodd 31 o'r ymatebwyr *"oes"* i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r farn bod angen i Gadeirydd ac ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi newydd barchu Egwyddorion Nolan, a meddu ar brofiad gweithredol ac ariannol amlwg o ehangder y sector gofal cymdeithasol, ond gan aros yn annibynnol arno. Gwnaethant hefyd awgrymu y dylai'r aelodau feddu ar sgiliau cydweithio, arweinyddiaeth foesegol a sgiliau negodi a chyfryngu effeithiol.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at yr angen i'r Corff Negodi ystyried Cytundebau Cyflog Teg ochr yn ochr â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector a'r

Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth, gan sicrhau bod unrhyw gytundebau newydd yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai'r broses benodi gael ei hategu gan weithdrefnau llywodraethu cadarn er mwyn atal achosion o wrthdaro buddiannau. Dylai'r aelodau feddu ar ddealltwriaeth gref o amrywiaeth y rolau a'r gwasanaethau a realiti masnachol y sector, a gallu cydnabod yr effeithiau y gall penderfyniadau eu cael ar bob parti.

Dewisodd 44 o'r ymatebwyr "*Nac oes*" i'r cwestiwn hwn, dewisodd 21 "ddim yn gwybod" a dewisodd un "mae'n well gennyf beidio â dweud" heb roi unrhyw sylwadau eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal dull hyblyg o ran meini prawf aelodaeth y Corff Negodi. Dim ond dau faen prawf dymunol ar gyfer penodi a fydd yn cael eu nodi yn y rheoliadau:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o ran y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys cyflenwi gwasanaethau;
- profiad neu ddealltwriaeth o negodiadau ynghylch cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr pa mor bwysig ydyw bod gan aelodau'r Corff Negodi ymwybyddiaeth gref o realiti gweithredol gofal cymdeithasol yng Nghymru ac amrywiaeth y sector. Bydd y broses benodi hefyd yn ystyried y cyfuniad cyffredinol o sgiliau, profiad a safbwyntiau ar y Corff Negodi, gan gynnwys y gallu i gydweithio, gweithredu'n ddiduedd a chynnal gwerthoedd gofal cymdeithasol.

C32 - A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi?

Atebodd 43 o'r ymatebwyr "*Ydw*" i'r cwestiwn hwn, gan ddangos eu bod o blaid gweld Llywodraeth Cymru yn cyflawni swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai gweision sifil proffesiynol yn helpu i sicrhau bod y Corff Negodi yn gweithredu'n effeithiol, ac roedd un arall o'r farn y byddai'n helpu i gadw'r costau i lawr pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r swyddogaeth ysgrifenyddiaeth. Roedd ymatebydd arall o'r farn bod swyddogion Llywodraeth Cymru a oedd yn cefnogi'r Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol mewn swyddogaeth debyg wedi profi eu bod yn ddibynadwy ac yn effeithiol.

Atebodd wyth ymatebydd "*Nac ydw*." Ychwanegodd dau ymatebydd nad oeddent yn gwybod pwy ddylai gyflawni'r swyddogaeth os nad Llywodraeth Cymru, ac roedd un ymatebydd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fod yn bartner cyflenwi allanol, ond ni ymhelaethodd ar hynny. Rhannodd ymatebydd arall bryderon y byddai unrhyw gyfranogiad gan y llywodraeth yn ychwanegu haen o fiwrocratiaeth na fyddai'n gwneud y broses yn deg, yn annibynnol nac yn dryloyw.

Nid atebodd 12 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid gweld gweision sifil yn cyflawni swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y Corff Negodi, ac rydym yn bwriadu mabwysiadu'r dull hwn. Bydd hyn yn helpu i sicrhau costeffeithiolrwydd, parhad ar draws cylchoedd negodi, a diduedddrwydd. Bydd y Swyddfa Genedlaethol Gofal a Chymorth yn cyflawni swyddogaeth yr ysgrifenyddiaeth, a bydd yn darparu cymorth gweinyddol, dadansoddol a gweithredol i'r Cadeirydd ac aelodau'r Corff Negodi. Ni fydd yn chwarae unrhyw rôl wrth bennu canlyniadau negodiadau.

C33 - A oes unrhyw ffactorau y dylem eu hystyried wrth benderfynu sut y caiff unrhyw gyllid sydd ar gael ei ddosbarthu i gefnogi'r negodiadau a rhoi'r Cytundeb Cyflog Teg ar waith? Esboniwch eich safbwynt a rhowch wybodaeth ategol (dewisol)

Nid atebodd 35 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd 27 o'r ymatebwyr o'r farn bod ffactorau eraill i'w hystyried, gan gynnwys anghenion penodol ardaloedd gwledig, a bod amseroedd teithio a materion logisteg eraill yn arwain at oblygiadau cost ychwanegol i'r gweithlu; bod y cynnig yn cael ei gymhwyso i bob agwedd ar ofal cymdeithasol ac nid y sector cyhoeddus yn unig; amrywiadau rhanbarthol a chostau byw; nad yw'r costau'n cael eu trosglwyddo i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol; bod digon o gyllid ar gael i fodloni unrhyw gytundeb; a sicrhau nad yw'r cytundeb yn tanseilio gwahaniaethau cyflog ar draws rolau.

Roedd sawl ymatebydd o'r farn ei bod yn bwysig darparu digon o gyllid cynaliadwy i gyflawni Cytundebau Cyflog Teg, gan gynnwys costau gwirioneddol cyflogau staff, ac nad oedd cyflogwyr yn cael eu gadael i dalu'r costau ychwanegol heb unrhyw gymorth. Arweiniodd hyn at alwad am sicrwydd y byddai mecanweithiau monitro yn cael eu cryfhau a'u targedu er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu'n dryloyw ac yn gallu dangos sut roedd eu prosesau comisiynu wedi sicrhau bod cyllid wedi cael ei drosglwyddo i ddarparwyr gwasanaethau. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai unrhyw gyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cytundebau Cyflog Teg gael ei ddarparu'n uniongyrchol i ddarparwyr gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr arian.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai mynd i'r afael â Chytundeb Cyflog Teg cenedlaethol heb wneud yr un peth mewn perthynas â ffioedd comisiynu yn peri risg o danseilio unrhyw fudd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod amlen gyllido drwy lythyr cylch gwaith a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru cyn pob cylch negodi. Bydd y mecanwaith ar gyfer trosglwyddo'r cyllid hwn i'n gweithlu yn cael ei ddatblygu gan fanteisio ar y

gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno'r polisi Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal yng Nghymru, a chan sicrhau bod dyraniadau cyllid yn dryloyw.

C34 - A oes unrhyw beth arall y dylid ei nodi mewn llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru?

Atebodd 19 o'r ymatebwyr *"oes"* i'r cwestiwn hwn. Galwodd y mwyafrif am i'r llythyr cylch gwaith gynnwys blaenoriaethau a gofynion wedi'u diffinio'n glir, eglurder ynghylch yr hyn nad yw o fewn y maes gwaith, ac am amlen gyllido ddigonol a chynaliadwy i bob parti. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai gyfeirio at y cysylltiad â chomisiynu a nodi'r mecanwaith ar gyfer sut y bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno'r Cytundeb Cyflog Teg i weithwyr.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r llythyr cylch gwaith fod yn ganllaw i'r Corff Negodi ond bod yn ddigon hyblyg i'w alluogi i osod rhai o'i flaenoriaethau ei hun. Teimlwyd y byddai hyn yn cefnogi cydfargeinio sectorol gwirioneddol ac yn caniatáu i'r Corff Negodi bennu ei nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor.

Atebodd 16 o'r ymatebwyr "*Ddim yn gwybod*," ac ni ddarparodd 15 ohonynt unrhyw fanylion eraill.

Dewisodd 12 o'r ymatebwyr "*Nac oes*" i'r cwestiwn hwn, dewisodd dau "*Mae'n well gennyf beidio â dweud*" a dewisodd 13 beidio ag ateb heb roi unrhyw sylwadau eraill.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddwn yn sefydlu strwythur lle byddai llythyr cylch gwaith yn nodi unrhyw feysydd blaenoriaeth ar gyfer y llywodraeth, gan gynnwys:

- cwmpas a chylch gwaith: y telerau ac amodau, materion cyflogaeth ehangach a rolau penodol yn y gweithlu y byddai'r llywodraeth yn mynnu eu bod yn cael eu hystyried ar gyfer y cylch hwnnw o negodiadau
- sylw dyledus i ffactorau cyd-destunol: y ffactorau y mae'n rhaid i'r Corff Negodi eu hystyried a/neu y gall eu hystyried, er enghraifft amodau economaidd, fforddiadwyedd, tystiolaeth gan y gweithlu, unrhyw weithgareddau perthnasol gan gyrff eraill
- amodau: amodau y mae'n rhaid eu bodloni mewn perthynas ag unrhyw gytundeb (bydd hyn yn cynnwys yr amlen gyllido fwyaf y cytunwyd arno gan lywodraeth ganolog ar gyfer y cylch hwnnw)
- amserlenni: yr amserlen ar gyfer negodiadau, gan gynnwys dyddiad cau erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Corff Negodi gyflwyno cytundeb i Weinidogion Cymru
- gwybodaeth a thystiolaeth: unrhyw ofynion ynghylch gwybodaeth a thystiolaeth i'w darparu i'r Corff Negodi
- llywodraeth leol: bod yn rhaid i'r Corff Negodi ymgynghori â llywodraeth leol ac ystyried ei barn

- Comisiynwyr y GIG ac unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain: ystyried fforddiadwyedd i'r grwpiau hyn.

Bwriad cynnwys y ffactorau hyn yw sicrhau bod gan y Corff Negodi yr hyblygrwydd i drafod a negodi materion o fewn ei gylch gwaith statudol llawn, yn ogystal â rhoi cyfrif am flaenoriaethau ac amodau'r llywodraeth, megis yr amlen ariannu fwyaf ar gyfer y cylch hwnnw o negodiadau.

C35 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig ynghylch sut y bydd negodiadau'n dechrau?

Ar ôl i'r Corff Negodi gael llythyr cylch gwaith, bydd modd iddo ddechrau negodiadau, a gaiff eu harwain gan y cadeirydd a'u cefnogi gan yr ysgrifenyddiaeth. Cyn i'r negodiadau ddechrau, efallai yr hoffai'r Corff Negodi gynnal cyfnod o waith ymgysylltu a chasglu tystiolaeth i ddeall y dirwedd bresennol. Caiff y Corff Negodi gynnal negodiadau fel y gwêl yn dda, yn unol â pharamedrau'r llythyr cylch gwaith.

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion naill ai'n "*Cytuno'n gryf*" (14) neu'n "*Cytuno*" (29) â'r cynnig hwn, gan gytuno bod angen digon o amser ar y Corff Negodi i ymgysylltu â'r sector, cwblhau ei ymchwil a negodi Cytundeb Cyflog Teg tryloyw. Galwyd am gyhoeddi'r dystiolaeth i ddangos sut y daethpwyd i benderfyniadau. Roedd rhai o'r farn y byddai cod ymddygiad tryloyw yn helpu i sicrhau bod gan bobl hyder ac ymddiriedaeth yn y broses, ac roedd eraill o'r farn bod angen set glir o amserlenni i sicrhau bod comisiynwyr yn deall goblygiadau'r cytundebau ac yn eu hymgorffori yn eu prosesau gosod cyllideb er mwyn cynnal cynaliadwyedd, cadw'r gweithlu a chyflenwi gwasanaethau.

Dewisodd chwe ymatebydd "*Ddim yn cytuno nac yn anghytuno*," gyda dim ond un ohonynt yn ehangu ar y safbwynt hwn. Roedd yn dadlau bod angen i'r negodiadau hefyd ystyried y fethodoleg ffioedd comisiynu genedlaethol er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei drosglwyddo i gyflawni'r cytundeb terfynol.

Roedd chwe ymatebydd yn "*anghytuno*", gan nodi pryderon y byddai cyfyngu'r negodiadau i "*paramedrau'r llythyr gwaith*" yn rhwystro ystyriaeth o faterion ehangach sy'n effeithio ar y gweithlu. Roedd rhai o'r farn y dylai'r dystiolaeth ymchwil arwain y trafodaethau a'r broses negodi ar gyfer cytundeb.

Roedd un ymatebydd yn "*Anghytuno'n gryf*," dewisodd dau ymatebydd "*Ddim yn Gwybod*" a dewisodd un ymatebydd "*Arall*", ond ni wnaeth yr un ohonynt ymhelaethu ar eu dewis.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gyda chefnogaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r broses a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, sy'n golygu y gall y negodiadau ddechrau ar ôl i'r Corff Negodi gael y cylch gwaith. Byddwn yn ystyried yr holl safbwyntiau a rannwyd wrth i ni ddatblygu hyn ymhellach.

C36 – A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig y dylai'r naill ochr fargeinio a'r llall reoli ei system bleidleisio ei hun, a'i gwneud yn ofynnol i bob ochr hysbysu'r cadeirydd a all gefnogi setliad arfaethedig ai peidio?

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion naill ai'n "*Cytuno'n Gryf*" (16) neu'n "*Cytuno*" (21), gan nodi bod hyn yn adlewyrchu trefniadau bargeinio cyflog sefydledig ac felly'n gyfarwydd, yn gydnabyddedig ac yn dderbyniol i gyflogwyr a'r gweithlu.

Dewisodd saith ymatebydd "*Ddim yn cytuno nac yn anghytuno*," gan fynegi pryderon yn lle hynny ynghylch p'un a fyddai'r aelodau'n gallu ymgynghori'n effeithiol heb achosi oedi i'r negodiadau a'r broses o gyflenwi gwasanaethau. Roedd yr ymatebwyr yn pryderu, gan mai dim ond cyflogwyr a gweithwyr a oedd yn cael eu cynrychioli gan y prif bartïon, na fyddai pryderon defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu hystyried.

Dewisodd tri ymatebydd *"Anghytuno"* â'r cynnig. Roedd y pryderon yn cynnwys y posibilrwydd y gallai gweithredu diwydiannol ddylanwadu ar negodiadau, llai o dryloywder, a'r angen i roi mwy o ystyriaeth i rôl ddeuol llywodraeth leol yn y broses.

Dewisodd chwech "*Ddim yn Gwybod*" a dewisodd un y *"Mae'n well gennyf beidio â dweud"*, ond ni wnaethant ymhelaethu pam eu bod wedi dewis yr opsiynau hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gyda chefnogaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â'r broses a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori, sy'n golygu y byddai'r naill ochr fargeinio a'r llall yn rheoli ei system bleidleisio ei hun, a byddwn yn ystyried yr holl safbwyntiau a rannwyd wrth i ni ddatblygu hyn ymhellach.

C37 - Yn eich barn chi, a yw chwe mis yn ddigon o amser i ddod i gytundeb yn ystod negodiadau?

Atebodd 37 o ymatebion "*Ydy*" i'r cwestiwn hwn, gan gytuno bod chwe mis yn ddigon o amser i ystyried y dystiolaeth yn gynhwysfawr, myfyrio, a dod i gytundeb ar gyfer cytundeb cyflog teg. Roedd rhai o'r farn bod angen cysoni'r amserlenni a'r broses o osod cyllidebau, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosesau hyn, fel nad oes unrhyw oedi.

Atebodd naw ymatebydd "*Nac ydy*" i'r cynnig hwn, gyda sawl un yn nodi bod y cynnig yn wastraff amser, gan na fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r pwysau ehangach ar y sector gofal cymdeithasol. Awgrymodd dau ymatebydd na fyddai'n ddigon o amser i gwblhau'r negodiadau cyntaf oherwydd cymhlethdodau'r sector.

Atebodd naw ymatebydd "*Ddim yn gwybod*", ond roedd rhai o'r farn y byddai llwyddiant yn dibynnu ar roi digon o amser i'r Corff Negodi ymgysylltu'n ystyrlon â'r sector ac ystyried y dystiolaeth er mwyn negodi'r hyn a fyddai'n gyfystyr â Chytundeb Cyflog Teg, pan nad oedd yn glir sut y byddai'r broses yn cael ei hariannu.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ar y sail bod chwe mis yn ddigon o amser i gynnal negodiadau er mwyn gallu cytuno ar Gytundebau Cyflog Teg newydd yn flynyddol. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

C38 - Yn eich barn chi, a yw chwe mis yn ddigon o amser i'r sector baratoi i roi'r cytundeb cyflog ar waith gan roi cyfle i Lywodraeth Cymru ystyried yr argymhelliad a gweithredu?

Atebodd 29 o'r ymatebwyr "*Ydy*", gyda'r rhan fwyaf o'r farn bod chwe mis yn ddigon o amser i'w roi ar waith, cyhyd ag y byddai digon o arian ar gael i'w gyflawni. Pwysleisiodd rhai yr angen brys i gyflwyno'r Cytundeb Cyflog Teg, gan ddadlau bod y sector a'r gweithlu'n barod ar ei gyfer.

Atebodd 13 o'r ymatebwyr "*Nac ydy*" i'r cwestiwn hwn, gan nodi pryderon nad yw'r sector yn barod eto ar gyfer y goblygiadau ariannol, yn enwedig gan nad oes cytundeb ynghylch y cyllid eto. Roedd rhai o'r farn y dylid cyflwyno'r cytundeb cychwynnol yn raddol er mwyn cyd-fynd â chylchoedd comisiynu a chyllidebu.

Atebodd 8 ymatebydd "*Ddim yn gwybod".* Pwysleisiodd yr ymatebion yr angen am amserlen weithredu sy'n cyd-fynd â'r prosesau comisiynu a chyllido presennol. Esboniodd sawl un fod negodiadau ynghylch ffioedd comisiynu wedi'u cynnal dros gyfnod y gaeaf, a bod y trefniadau wedi'u rhoi ar waith ym mis Mawrth, ac y byddai hyn bellach yn gofyn am ystyriaeth bellach o'r cyllid ychwanegol ar gyfer unrhyw Gytundeb Cyflog Teg. Roedd pryder y gallai hyn olygu bod rhaid ailnegodi'r ffioedd.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Gyda chefnogaeth gan y rhan fwyaf o'r rheiny a atebodd y cwestiwn hwn, rydym yn bwriadu bwrw ymlaen ar y sail bod chwe mis yn ddigon o amser i roi'r Cytundeb Cyflog Teg ar waith, gan ystyried yr awgrymiadau ynghylch sut y gellir gwneud hyn yn haws i'r sector. Byddwn yn parhau i adolygu hyn.

Mae cwestiynau 39-42 yn ymdrin â maes gwaith a chwmpas y Corff Negodi. Mae un ymateb gan y Llywodraeth wedi'i gynnwys ar ôl cwestiwn 42.

39. A oes unrhyw rolau, naill ai yn eich sefydliad neu rydych yn eu cyflogi, rydych yn poeni nad ydynt yn cyd-fynd â'r diffiniad o weithiwr gofal cymdeithasol fel y nodir yn adran 42 (1) (b) o Ddeddf 2025 a'r adran uchod, ac felly efallai nad ydynt o fewn cwmpas y Corff Negodi?

Atebodd wyth ymatebydd "*Oes,*" gan nodi y dylid darparu mwy o eglurder ynghylch pa rolau fyddai'n cael eu cynnwys. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod y diffiniad presennol yn fwriadol yn rhy eang. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys rolau megis staff ategol, neu therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, hyfforddwyr technegol, swyddogion galluogi a swyddogion teleofal yn y diffiniad fel "gweithwyr gofal cymdeithasol," gan y gallai'r rhain groesi ffiniau rhwng gofal cymhleth a chwmnïaeth.

Dewisodd 18 o'r ymatebwyr “*Nac oes,*” gan rannu pryderon ynghylch pa mor gostus y gallai'r broses ddod ac annog cwmpas mwy pendant er mwyn osgoi dryswch. Tynnodd rhai sylw at yr angen i'r Corff Negodi fod yn ymwybodol o ganlyniadau anfwriadol posibl cytundebau, yn enwedig lle mae gweithwyr mewn rhai gwasanaethau y tu allan i'r cwmpas.

Atebodd 13 o'r ymatebwyr “*Ddim yn gwybod,*” ac ni wnaeth nifer ohonynt roi unrhyw eglurhad pellach. Roedd rhai am gael mwy o eglurder ynghylch yr hyn yw “gweithiwr gofal cymdeithasol,” ac roedd un o'r farn nad oedd hanner ei staff yn ofalwyr ond y dylid eu cynnwys neu y byddai'n annheg.

Dewisodd un ymatebydd *"Mae'n well gennyf beidio â dweud."*

C40 - Sut y gall Llywodraeth Cymru eich cefnogi chi neu'ch sefydliad i bennu a fydd eich gweithwyr o fewn cwmpas y Corff Negodi? (Dewisol)

Nid atebodd 47 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

O'r ychydig a ymatebodd, galwodd y rhan fwyaf am ddiffiniadau clir, canllawiau (ynghyd ag enghreifftiau ymarferol a thempledi) a gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru i helpu cyflogwyr a chomisiynwyr i ddeall sut y bydd y broses hon yn gweithio. Roedd rhai o'r farn y dylid datblygu adnoddau ar-lein, ochr yn ochr â chwestiynau cyffredin, ac y dylid eu cyflwyno cyn y cytundeb cyntaf, fel y gall cyflogwyr benderfynu pwy fyddai'n dod o fewn y cwmpas.

Roedd un ymatebydd o'r farn y dylid cynnwys gweithwyr gofal cymdeithasol sy'n hunangyflogedig neu o dan drefniadau anffurfiol o fewn cwmpas ystyriaeth y cytundebau er mwyn rhoi terfyn ar yr arfer o gynnig contractau staff sy'n osgoi darparu telerau ac amodau llawn i staff.

C41 - Yn eich barn chi, a oes unrhyw leoliadau, gwasanaethau neu rolau a ddylai gael eu heithrio o gwmpas y Corff Negodi Gofal Cymdeithasol?

Atebodd naw ymatebydd *"Oes"* i'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r farn y dylid eithrio gweithwyr y sector cyhoeddus, a gyflogir gan awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd, o gylch gwaith y Corff Negodi hwn, gan eu bod yn destun eu negodiadau eu hunain a oedd yn eithrio'r rhai yn y sectorau annibynnol a gwirfoddol.

Roedd 1 ymatebydd o'r farn y dylai'r Corff Negodi ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle'r oedd problemau recriwtio a gweithwyr ar gyflogau isel. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch a ddylid cynnwys rolau ategol, gan eu bod yn rhan o gartrefi gofal a gwasanaethau gofal cartref, gyda rhai o blaid y syniad ac eraill yn erbyn.

Atebodd 32 o'r ymatebwyr “*Nac oes*" i'r cwestiwn hwn. Dewisodd y mwyafrif beidio ag ymhelaethu ar eu hymateb, ond darparodd sawl un wybodaeth ychwanegol, gan drafod p'un a ddylai'r Corff Negodi gwmpasu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Atebodd 13 o'r ymatebwyr “*Ddim yn gwybod*” i'r cynnig hwn.

Dewisodd naw ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

C42 - Yn eich barn chi, a oes unrhyw leoliadau, gwasanaethau neu rolau eraill nad ydynt wedi cael eu crybwyll a ddylai gael eu cynnwys o fewn cwmpas y Corff Negodi? (Gweler yr adran "Cwmpas" am y rhestr)

Atebodd wyth ymatebydd "*Oes*". Gwnaethant dynnu sylw at sawl rôl, gan gynnwys staff awdurdodau lleol, staff ategol, addysgwyr nyrsio, gofalwyr maeth a goruchwylwyr clinigol sydd wedi'u hymgorffori gyda darparwyr gofal cymdeithasol.

Atebodd 23 o'r ymatebwyr "*Nac oes.*" Dim ond pedwar ohonynt a roddodd ragor o wybodaeth. Galwodd un ymatebydd am gynnwys staff "gofal ychwanegol", ac roedd dau ymatebydd yn croesawu cynnwys cynorthwywyr personol yn negodiadau'r Corff Negodi.

Dewisodd 21 o'r ymatebwyr "*Ddim yn gwybod*", gydag un ymatebydd yn gofyn am eglurhad ynghylch p'un a fyddai gweithwyr cymorth iechyd meddwl yn cael eu cynnwys.

Dewisodd un ymatebydd "Mae'n well gennyf beidio â dweud" ac ni chafwyd ymateb gan ddeg ymatebydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 39 - 42:

Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu cadw cwmpas eang i'r gweithlu gofal cymdeithasol o fewn cylch gwaith y Corff Negodi. Mae hyn yn adlewyrchu'r uchelgais y dylai pob gweithiwr gofal cymdeithasol gael y cyfle i elwa ar Gytundeb Cyflog Teg dros amser.

Bydd y dull hwn hefyd yn caniatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl i'r Corff Negodi bennu cwmpas ei drafodaethau. Yr unig rai a gaiff eu heithrio fydd y rhai sydd eisoes wedi'u cwmpasu gan gytundebau cydfargeinio drwy'r Cyd-bwyllgor Cenedlaethol (gweithwyr llywodraeth leol) a'r Agenda ar gyfer Newid (gweithwyr y GIG). Darperir rhagor o wybodaeth am hyn isod.

Bydd blaenoriaethau, disgwyliadau a chanlyniadau arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith y Corff Negodi yn cael eu nodi drwy gylch gorchwyl, gan gynnwys unrhyw grwpiau gweithlu neu faterion y mae'r Gweinidogion yn ystyried y dylent fod yn ganolbwynt sylw'r Corff.

Byddwn yn cefnogi sefydliadau i bennu a yw eu gweithlu yn dod o fewn cwmpas cytundeb cyflog teg a negodwyd drwy gyhoeddi canllawiau clir a manwl. Yn unol â'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, byddwn yn ceisio defnyddio diffiniadau clir, delweddau a negeseuon wedi'u targedu, er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir ar draws y sector.

Rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd o ganlyniad i'r ffaith bod gweithwyr hunangyflogedig a'r rhai sy'n gweithio o dan drefniadau anffurfiol y tu allan i gwmpas

y Corff Negodi. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hunangyflogaeth ffug yn y sector gofal, ac rydym yn bwriadu adolygu effaith cytundeb cyflog teg ar weithwyr hunangyflogedig ar ôl iddo gael ei roi ar waith.

C43 - Rhannwch unrhyw safbwyntiau ynghylch a allai'r Corff Negodi effeithio ar y rhai sy'n hunangyflogedig neu'n gweithio o dan drefniadau anffurfiol. (Dewisol)

Dewisodd naw ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Nododd nifer o'r ymatebwyr fod angen ystyried yr effaith bosibl ar daliadau uniongyrchol a ffioedd comisiynu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol prif ffrwd. Bydd angen cynyddu'r taliadau hyn er mwyn sicrhau bod cynorthwywyr personol yn cael codiadau cyflog ochr yn ochr â gweithwyr gofal cymdeithasol.

Gofynnodd nifer o'r ymatebwyr am ganllawiau cyhoeddedig clir, gan sicrhau nad oes unrhyw amwysedd a bod gan gyflogwyr eglurder ynghylch sut y byddai'r rhaglen yn gweithio'n ymarferol a phwy sydd o fewn y cwmpas.

Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai cyflogwyr ddefnyddio trefniadau hunangyflogaeth neu drefniadau anffurfiol i osgoi darpariaethau'r Cytundeb Cyflog Teg a hawliau cyflogaeth. Dadleuodd eraill y dylid eithrio'r grwpiau hyn, gan fod trefniadau o'r fath yn aml yn cael eu dewis yn wirfoddol gan ficro-ddarparwyr.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Nid yw'r rhai sy'n hunangyflogedig o fewn cwmpas y Corff Negodi gan nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o "weithiwr gofal cymdeithasol" a nodir yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 2025. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hunangyflogaeth ffug yn y sector gofal, ac rydym yn bwriadu adolygu effaith cytundeb cyflog teg ar weithwyr hunangyflogedig ar ôl iddo gael ei roi ar waith.

Gan fod cwestiynau 44 a 45 yn gysylltiedig, mae un ymateb gan y Llywodraeth wedi'i ddarparu ar gyfer y ddau gwestiwn yn dilyn cwestiwn 45.

C44 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai gweithwyr a gaiff eu cwmpasu gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol i Gymru fod o fewn cwmpas y Corff Negodi hefyd?

Roedd 21 o'r ymatebwyr naill ai'n "*Cytuno'n gryf*" (9) neu'n "*Cytuno*" (12) â'r cwestiwn hwn. Roedd y rhai a roddodd resymau yn teimlo bod y system bresennol eisoes yn creu proses gyflogau dwy haen rhwng gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector annibynnol. Teimlwyd mai'r nod ddylai fod un broses lle caiff pob gweithiwr yr un tâl.

Dewisodd 19 o'r ymatebwyr "*Ddim yn cytuno nac yn anghytuno*". Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn cytuno y dylid hepgor gweithwyr y sector cyhoeddus er mwyn helpu i gysoni cyfraddau cyflog yn y sector annibynnol â'r sector cyhoeddus. Gallai methu â gwneud hyn gynyddu'r bylchau cyflog rhwng y gweithwyr hyn ac achosi dryswch o bosibl.

Roedd deg ymatebydd naill ai'n “*Anghytuno*" (7) neu'n "*Anghytuno'n gryf*” (3), gan nodi’r angen i weithwyr y sector cyhoeddus aros ar eu cytundebau cyflog presennol o dan y Cyd-gyngor Cenedlaethol, gan eu bod eisoes yn elwa o drefniadau cydfargeinio. Mae'n debygol y bydd eu cyfradd gyflog yn uwch nag unrhyw Gytundeb Cyflog Teg yn y dyfodol agos, ac ni ddylai hyn fod yn flaenoriaeth i'r Corff Negodi. Dylid parhau i adolygu hyn wrth i bethau fynd rhagddynt.

Atebodd chwe ymatebydd “*Ddim yn gwybod*" atebodd un ymatebydd *"Mae'n well gennyf beidio â dweud*” ac ni wnaeth chwech ymateb.

C45 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai gweithwyr a gaiff eu cwmpasu gan gontract yr Agenda ar gyfer Newid fod o fewn cwmpas y Corff Negodi hefyd?

Dewisodd 20 o'r ymatebwyr “*Cytuno'n gryf*" (9) neu "*Cytuno*" (11). Er eu bod yn cydnabod yr heriau sydd ynghlwm â systemau deuol, roedd yr ymatebwyr o'r farn y byddai'r risg yn fwy i rai gweithwyr gael eu talu llai yn dibynnu ar bwy yw eu cyflogwr, ac yn ddelfrydol dylai'r Corff Negodi gwmpasu'r gweithlu cyfan. Roedd rhai o'r farn y byddai'r "Agenda ar gyfer Newid" yn fwy hael na'r Cytundeb Cyflog Teg newydd ac y gallai hyn waethygu'r sefyllfa ddwy haen bresennol.

Dewisodd 20 o’r ymatebwyr "*Ddim yn cytuno nac yn anghytuno*". Roedd llawer o'r farn bod yr “Agenda ar gyfer Newid”, yn yr un modd a'r Cyd-gyngor Cenedlaethol, yn debygol o fod yn uwch na’r hyn y bydd unrhyw Gytundeb Cyflog Teg yn gallu ei gynnig i ddechrau. Dylid monitro hyn wrth i'r Cytundebau Cyflog Teg ddatblygu, gan weithio tuag at gysoni’r graddfeydd cyflog.

Roedd saith ymatebydd yn “*Anghytuno*". Roedd yr ymatebwyr hyn yn dadlau bod yr “Agenda ar gyfer Newid”, fel y Cyd-gyngor Cenedlaethol, eisoes yn fframwaith cydfargeinio cenedlaethol ac felly na ddylai fod yn flaenoriaeth i’r Corff Negodi. Byddai ychwanegu'r gweithwyr hyn yn ychwanegu cymhlethdod heb unrhyw fudd, ac yn achosi dryswch.

Atebodd chwe ymatebydd “*Ddim yn gwybod*" ac atebodd un ymatebydd "*Mae'n well gennyf beidio â dweud*” i'r cwestiwn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 44 a 45:

Gwnaethom ystyried yn ofalus safbwyntiau ar p'un a ddylai gweithwyr a gwmpesir eisoes gan drefniadau cydfargeinio, gan gynnwys yr Agenda ar gyfer Newid i weithwyr y GIG a'r Cyd-bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Llywodraeth Leol, fod o fewn cwmpas y Corff Negodi. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd sicrhau cysondeb yn y gweithlu a diogelu gweithwyr, ond osgoi dryswch a gwneud y broses yn rhy gymhleth.

O ystyried bod y gweithwyr hyn eisoes yn cael eu cwmpasu gan drefniadau bargeinio sefydledig, penderfynwyd y gallai eu cynnwys ar y cam hwn arwain at ddyblygu, cymhlethdod ac ansicrwydd, gan danseilio'r prosesau presennol o bosibl.

Bydd canolbwyntio'r Corff Negodi ar rannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol nad ydynt wedi'u cwmpasu ar hyn o bryd gan drefniadau bargeinio sefydledig, yn ei alluogi i dargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf a chael yr effaith fwyaf ar gyflog, telerau ac amodau. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus wrth i'r Corff Negodi ddatblygu a chasglu tystiolaeth ar ganlyniadau'r gweithlu.

Cwestiynau trawsffiniol:

Gofynnwyd pedwar cwestiwn yn ymwneud â rheoli gwasanaethau ar draws y ffiniau. Gellir dod o hyd i ymateb cyfun gan Lywodraeth Cymru i'r pedwar cwestiwn nesaf yn dilyn C49.

C46 - A ydych yn rheoli gwasanaeth ar draws y ffiniau rhwng Cymru a Lloegr neu Lloegr a'r Alban ar hyn o bryd?

Dewisodd 13 o'r ymatebwyr "*Ydw*." Roedd y safbwyntiau ar gyflogau trawsffiniol yn amrywio. Nododd dau fod y cyfraddau cyflog yr un fath ar y ddwy ochr i'r ffin, ond nododd eraill fod cyflogau'n uwch yng Nghymru neu, i'r gwrthwyneb, yn uwch yn Lloegr.

Dywedodd nifer o'r ymatebwyr eu bod eisoes yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio sy'n benodol i wledydd unigol ac yn rheoli amrywiadau rhanbarthol mewn cyflogau, ond eu bod yn rhagweld y byddai'r Cytundebau Cyflog Teg yn arwain at faich gweinyddol ychwanegol.

Atebodd 31 o'r ymatebwyr "*Nac ydw.*" Dim ond dau ymatebydd a roddodd unrhyw wybodaeth ychwanegol, gan gadarnhau nad oedd dull safonol o reoli cyflogau ar draws y ffin, a'i bod yn hanfodol sicrhau cysondeb ac eglurder.

Nid atebodd 18 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

C47 - Mewn egwyddor, a fyddai gorfod cydymffurfio â gofynion cyfreithiol gwahanol ar gyfer cyflog a thelerau ac amodau mewn gwledydd gwahanol yn gwneud ichi ailystyried eich gweithrediadau a ble rydych yn darparu gofal?

Atebodd wyth "*Byddai*". Er na wnaeth y rhan fwyaf ymhelaethu, nododd rhai ymatebwyr y gallai fod dryswch yn sgil cael telerau ac amodau gwahanol bob ochr i'r ffin, pan fydd rhai gweithwyr yn darparu gofal yn y ddwy wlad o ddydd i ddydd. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y cyfraddau comisiynu presennol eisoes yn ei gwneud yn anodd darparu gofal.

Atebodd 14 o'r ymatebwyr "*Na fyddai*". Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymhelaethu, ond nododd un oni bai bod y baich gweinyddol yn mynd yn llawer mwy cymhleth, na allai ei weld ei hun yn newid ei weithrediadau.

Atebodd 16 o'r ymatebwyr "*Ddim yn gwybod*". Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ymhelaethu, ond nododd un ymatebydd y byddai'n anodd dweud heb weld y gofynion cyfreithiol gwahanol rhwng Cymru a Lloegr. Roedd ymatebydd arall o'r farn

bod y gwahaniaethau rheoliadol presennol rhwng Cymru a Lloegr eisoes yn achosi cymhlethdodau o ran cofrestru gwasanaethau a'r gweithlu, ac y gallai Cytundebau Cyflog Teg ychwanegu haen arall o gymhlethdod.

Ni wnaeth 25 o'r ymatebwyr ateb.

C48 - Pe bai cyflog a thelerau ac amodau yn wahanol rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban, a fyddai hyn yn cael unrhyw effaith ar eich dewis o swydd, ble rydych yn gweithio neu ble rydych yn byw?

Dewisodd 18 o'r ymatebwyr "*Byddai"* i'r cwestiwn hwn. Dewisodd y rhan fwyaf beidio ag ymhelaethu ar eu hateb, ond ymhlith y rhai a wnaeth hynny, roedd y pryderon yn ymwneud â rheoli'r gwahaniaethau bob ochr i'r ffin a'r risg o golli staff wrth iddynt symud i'r wlad a oedd yn cynnig cyflog gwell.

Dewisodd 12 o'r ymatebwyr "*Na fyddai"* i'r cwestiwn hwn. Dewisodd y rhan fwyaf beidio â darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol ond eglurodd dau ymatebydd na fyddai hyn yn ystyriaeth iddynt.

Atebodd chwe ymatebydd "*Ddim yn gwybod*" ond tynnodd un sylw at broblemau posibl wrth reoli rhywun ar wahanol Gytundebau Cyflog Teg yn dibynnu ar yr oriau a weithir ym mhob gwlad, a'r angen i archwilio opsiynau amgen ar gyfer y rhai mewn ardaloedd ar y ffin.

Ni wnaeth 26 o'r ymatebwyr ateb.

C49 - Pa un o'r opsiynau isod y byddech yn ei ffafrio mewn achosion lle gallai gweithiwr gael ei gwmpasu gan fwy nag un Cytundeb Cyflog Teg am ei fod yn gweithio ar draws ffiniau?

49.1	**A**	**Bydd gweithiwr yn dilyn cyflog a thelerau ac amodau'r Cytundeb Cyflog Teg ar gyfer nifer yr oriau y bydd yn eu gweithio yn y genedl honno**
49.2	**B**	**Bydd gweithiwr yn dilyn un Cytundeb Cyflog Teg ar gyfer y man lle mae'n treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn gweithio, a bydd yn cael yr un cyflog a thelerau ac amodau ar gyfer yr holl oriau y bydd yn eu gweithio.**
49.3	**C**	**Bydd gweithiwr yn dilyn un Cytundeb Cyflog Teg ar gyfer y man lle mae'n byw, a bydd yn cael yr un cyflog a thelerau ac amodau ar gyfer yr holl oriau y bydd yn eu gweithio.**
49.4	**-**	**Arall**
49.5	**-**	**Ddim yn Gwybod**

Dewisodd 23 o'r ymatebwyr opsiwn A. Ni roddodd y mwyafrif unrhyw eglurhad o'u dewis. O'r rhai a wnaeth ymhelaethu, roedd rhai o'r farn mai dyma fyddai'r ffordd orau o ddiogelu uniondeb unrhyw Gytundebau Cyflog Teg a gaiff eu datblygu. Ychwanegodd un ymatebydd y gallai opsiwn arall fod i gyflogwyr dalu eu staff yn ôl

Cytundeb Cyflog Teg y genedl lle maent wedi'u cofrestru – h.y. gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghymru neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr.

Dewisodd 17 o'r ymatebwyr opsiwn B. Roedd y rhai a ymhelaethodd ar y dewis hwn o'r farn y byddai hyn yn darparu eglurder, cysondeb a thegwch o ran cyflogau i weithwyr, gan leihau'r heriau gweithredol i gyflogwyr.

Dewisodd dau ymatebydd opsiwn C. Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai gweithiwr sy'n cael dau gyflog gwahanol am wneud yr un gwaith bob ochr i'r ffin ddewis gweithio yn y genedl sy'n talu orau yn unig, gan greu problemau pellach o ran recriwtio a chadw staff.

Dewisodd tri ymatebydd "*Arall*", ac roedd un ohonynt yn dadlau y gellid cysylltu Cytundebau Cyflog Teg â lle mae'r darparwr gwasanaeth wedi'i gofrestru – gan leihau'r baich gweinyddol ar gyflogwyr. Roedd un arall o'r farn ei bod yn rhy anodd rhoi barn wybodus heb wybod beth fyddai maint posibl y broblem, ond teimlai y byddai'r farchnad yn ymateb yn naturiol dros amser.

Atebodd tri "*Ddim yn gwybod*".

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 46, 47, 48 a 49:

Rydym yn cydnabod y gallai fod cymhlethdodau o ran y nifer bach o ddarparwyr a gweithwyr y gallai'r materion trawsffiniol fod yn berthnasol iddynt. Byddwn felly yn cyfarwyddo'r Corff Negodi, drwy'r llythyr cylch gwaith, i ystyried y polisïau cyflog ym mhob cenedl, ac unrhyw effeithiau, yn flynyddol, yn hytrach na phennu dull safonol na fyddai o bosibl yn addas i bawb. Bydd dull y cytunwyd arno yn cael ei gadarnhau ar y cyd â Llywodraeth y DU cyn i'r Cytundebau Cyflog Teg cyntaf ddod i rym ym mis Ebrill 2028.

Blaenoriaethau ar gyfer y Corff Negodi

Roedd y pum cwestiwn canlynol yn gofyn am farn yr ymatebwyr ar yr hyn y dylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu wrth gyflwyno llythyr cylch gwaith i'r Corff Negodi. Gellir dod o hyd i ymateb cyfun i'r pum cwestiwn yn dilyn C54.

C50 - O'r agweddau canlynol ar gyflog, pa rai y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt yn llythyr cylch gwaith cyntaf Llywodraeth Cymru i'r Corff Negodi, yn eich barn chi? Dewiswch hyd at dair blaenoriaeth.

50.1	**A**	**Pennu terfyn isaf cyflog (isafswm cyflog ar gyfer y sector) uwchlaw'r Cyflog Byw Gwirioneddol**
50.2	**B**	**Pennu bandiau cyflog sy'n gysylltiedig â datblygiad gyrfa**
50.3	**C**	**Cyflwyno cyflog sy'n gysylltiedig â chymwysterau neu sgiliau**
50.4	**D**	**Bonysau (er enghraifft, taliadau bonws tymhorol)**
50.5	**E**	**Taliadau cyflog atodol (er enghraifft, ar gyfer oriau anghymdeithasol neu i helpu i recriwtio a chadw staff)**
50.6	**F**	**Ddim yn Gwybod**
50.7	**G**	**Dim un o'r uchod**
50.8	**U**	**Arall**

Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (41) opsiwn A fel blaenoriaeth ar gyfer llythyr cylch gwaith cyntaf y Corff Negodi, gyda llawer yn awgrymu mai hwn ddylai unig ffocws yn y llythyr cylch gwaith cychwynnol, cyhyd â bod digon o gyllid ar gael. Dewisodd 27 o'r ymatebwyr opsiwn B, gyda 23 yn dewis opsiwn C. Roedd y rhan fwyaf o'r farn, wrth i fwy o ofynion cofrestru gael eu cysylltu â chymwysterau, ei bod yn rhesymegol i hyn gael ei adlewyrchu mewn cyflogau a datblygiad mewn ffordd sy'n adlewyrchu dull y GIG.

Dewisodd 14 o'r ymatebwyr opsiwn D, ac roedd 16 o'r farn y dylid cynnwys opsiwn E, gydag effaith oriau anghymdeithasol yn cael ei hadlewyrchu'n well yn y cyflogau. Drwy gydol yr ymatebion a gafwyd, ailbwysleisiodd llawer fod angen i unrhyw ystyriaethau a negodiadau ynghylch cyflog roi sylw i'r gwahaniaethau cyflog rhwng rolau ar draws y sector, gan ddefnyddio'r fframwaith Tâl a Dilyniant a ddatblygwyd gan Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol er mwyn osgoi baich ariannol sylweddol ar gyflogwyr.

C51 - O'r telerau ac amodau canlynol, pa rai y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried fel mater o flaenoriaeth yn ei llythyr cylch gwaith cyntaf i'r Corff Negodi, yn eich barn chi? Dewiswch hyd at dair blaenoriaeth.

51.1	**A**	**Tâl am amser a chostau teithio rhwng ymweliadau (yn ychwanegol at y Cyflog Byw Gwirioneddol y dylai darparwyr fod yn ei dalu eisoes)**
51.2	**B**	**Tâl am gysgu oddi cartref neu shifftiau nos**
51.3	**C**	**Oriau'r wythnos waith, gan gynnwys contractau dim oriau ac oriau gwarantedig.**
51.4	**D**	**Tâl goramser**
51.5	**E**	**Tâl salwch neu absenoldeb salwch gwell**
51.6	**F**	**Gwyliau blynyddol â thâl**
51.7	**G**	**Cyfraniadau ac amodau pensiwn**
51.8	**U**	**Lwfans anafiadau**
51.9	**E**	**Ddim yn Gwybod**
51.10	**J**	**Dim un o'r uchod**
51.11	**K**	**Arall**

Y dewis mwyaf poblogaidd oedd opsiwn A, gyda 25 yn nodi opsiwn E fel y maes pryder pwysicaf nesaf i'r gweithlu. Nesaf oedd opsiwn B gyda 20 o ymatebion.

Nododd 19 o'r ymatebwyr opsiwn D fel maes blaenoriaeth gyda 18 o'r ymatebwyr yn dewis opsiwn C. Nododd 18 o ymatebwyr opsiwn D fel eu blaenoriaeth.

Roedd 16 o ymatebwyr o'r farn y dylai opsiwn F fod yn flaenoriaeth, wedi'i ddilyn gan 13 o ymatebwyr a ddewisodd opsiwn H.

Atebodd dau ymatebydd "*Ddim yn Gwybod*" ac atebodd pedwar "*Dim un o'r uchod*". Roedd y rhain o'r farn y dylid canolbwyntio, yn y cyfnod cychwynnol, ar wella cyflogau.

Dewisodd 12 o'r ymatebwyr “*Arall*” gan ddarparu sylwadau ychwanegol. Roedd y safbwyntiau'n gymysg, gyda rhai'n nodi bod llawer o'r meysydd arfaethedig eisoes wedi'u cynnwys o dan gyfraith cyflogaeth. Roedd eraill o'r farn bod angen mwy o gysondeb a safoni ar draws y sector. Tynnodd rhai sylw at yr angen i fynd i'r afael â chyllid gofal cymdeithasol er mwyn galluogi cyflogwyr i fodloni disgwyliadau. Er eu bod yn cydnabod yr hyblygrwydd a gynigir gan gontractau dim oriau, roedd rhai o blaid sicrhau mwy o oriau gwarantedig a phatrymau gwaith mwy rhagweladwy er mwyn gwella sefydlogrwydd y gweithlu.

Nododd sylwadau ychwanegol y newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, sy'n cynnwys newidiadau i gontractau dim oriau, Tâl Salwch Statudol cryfach, a hawliau newydd i oriau gwarantedig ym maes gofal cymdeithasol. Er eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn raddol, roedd rhai o'r farn bod risgiau sylweddol y gallent gael effeithiau sylweddol ar gyflogwyr, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt addasu contractau, newid systemau amserlennu a modelau'r gweithlu, ynghyd â gwneud newidiadau pellach ar gyfer Cytundebau Cyflog Teg.

Nid atebodd chwe ymatebydd y cwestiwn hwn.

C52 - Yn eich barn chi, pa rai o'r meysydd canlynol o fewn hyfforddiant, datblygiad a datblygiad gyrfa ddylai gael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Corff Negodi, os o gwbl?

52.1	**A**	**Hawliau o ran hyfforddiant (er enghraifft, cynnwys diwrnodau hyfforddiant blynyddol, mynediad at gyllideb hyfforddi, yr hawl i ofyn am hyfforddiant)**
52.2	**B**	**Hyfforddiant arbenigol (er enghraifft, hyfforddiant dementia, hyfforddiant ar ddeallusrwydd artiffisial, tasgau gofal iechyd dirprwyedig)**
52.3	**C**	**Polisïau i gefnogi datblygiad gyrfa ar gyfer y gweithlu**
52.4	**D**	**Polisïau i gefnogi cyfleoedd datblygu ar gyfer y gweithlu**
52.5	**E**	**Polisïau i gefnogi cymwysterau penodol ar gyfer y gweithlu**
52.6	**F**	**Ddim yn Gwybod**
52.7	**G**	**Dim un o'r uchod - ni ddylid cynnwys hyfforddiant, datblygiad a datblygiad gyrfa**
52.8	**H**	**Arall**

Roedd 35 o'r ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys opsiwn A yn y llythyr cylch gwaith, gan alw am hyblygrwydd, gan na fydd rhai gweithwyr rhan-amser neu achlysurol o bosibl yn gallu bodloni gofynion penodol o ran ennill cymwysterau o fewn cyfnod penodol.

Y flaenoriaeth nesaf oedd opsiwn B, gyda rhai o'r farn bod angen hyfforddiant penodol, pwrpasol er mwyn sicrhau bod anghenion unigolion sy'n cael gofal yn cael eu diwallu.

Dewisodd 31 o'r ymatebwyr opsiwn C, gyda 27 yn dewis opsiwn D.

Roedd 20 o'r farn bod opsiwn E yn bwysig, gyda sawl ymatebydd yn cytuno y byddai hyn yn cynyddu'r nifer sy'n dewis astudio am gymwysterau, yn gwella dilyniant gyrfa, ac yn helpu i gadw staff.

Dewisodd dau ymatebydd "*Ddim yn gwybod*" ac atebodd pedwar ymatebydd "*Dim un o'r uchod"* ac roeddent o'r farn na ddylid ystyried hyfforddiant, datblygiad na dilyniant gyrfa yn y llythyr cylch gwaith cyntaf.

Rhoddodd 11 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol o dan "*Arall*", gan gyfeirio at ddatblygu gyrfaoedd a chyfleoedd hyfforddiant fel amcanion mwy hirdymor. Roeddent yn teimlo mai ar sicrhau'r cyllid cywir i ddarparu cyflogau teg y dylai'r ffocws fod. Roedd rhai o'r farn y byddai cynnwys unrhyw hyfforddiant a datblygiad yn y llythyr cylch gwaith yn dyblygu gwaith rheoleiddiwr y gweithlu, sef Gofal Cymdeithasol Cymru, a'r gofynion a nodir yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

C53 - Yn eich barn chi, pa rai o'r meysydd canlynol o fewn polisïau sy'n ymwneud â phobl a diwylliant ddylai gael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Corff Negodi, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n gymwys.

53.1	**A**	**Polisïau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**
53.2	**B**	**Polisïau llesiant**
53.3	**C**	**Polisïau urddas yn y gwaith (gan gynnwys bwlio, aflonyddu a gwahaniaethu)**
53.4	**D**	**Polisïau sy'n ystyriol o deuluoedd neu gydbwysedd rhwng gwaith a bywyd personol (gan gynnwys gweithio hyblyg)**
53.5	**E**	**Polisïau iechyd a diogelwch yn y gweithle (gan gynnwys atal trais yn y gweithle)**
53.6	**F**	**Cynlluniau chwythu'r chwiban a chodi llais**
53.7	**G**	**Ddim yn Gwybod**
53.8	**U**	**Dim un o'r uchod: ni ddylid cynnwys polisïau sy'n ymwneud â phobl a diwylliant**
53.9	**I**	**Arall**

Roedd galw amlwg am bob un o'r polisïau hyn, ac opsiynau A a B oedd y dewisiadau mwyaf poblogaidd, gyda 37 o bleidleisiau yr un. Nesaf roedd opsiynau C, D, E ac F gyda phob un ohonynt yn cael 32 o bleidleisiau.

Atebodd tri ymatebydd "*Ddim yn gwybod*".

Atebodd 11 o'r ymatebwyr "*Dim un o'r uchod: ni ddylid cynnwys polisïau sy'n ymwneud â phobl a diwylliant*." Dadleuodd llawer fod cyflogwyr eisoes yn gyfrifol am y meysydd hyn o dan y gyfraith cyflogaeth bresennol. Er bod rhai o blaid mwy o gysondeb cenedlaethol, nid oeddent yn gweld y Corff Negodi fel y mecanwaith priodol ar gyfer ei gyflawni. Yn hytrach, awgrymodd rhai y dylid hyrwyddo'r fframweithiau ymarfer gorau presennol, gan roi hyblygrwydd i gyflogwyr addasu polisïau i'w modelau busnes a'u hamgylchiadau eu hunain.

Nid atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn.

C54 - Yn eich barn chi, pa rai o'r meysydd canlynol o fewn buddiannau ychwanegol a chymorth ariannol ddylai gael eu cynnwys yng nghylch gwaith y Corff Negodi, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n gymwys.

54.1	**A**	**Cynlluniau teithio i'r gwaith (er enghraifft, benthyciadau ar gyfer tocynnau teithio tymor, disgowntiau ar gyfer trafnidiaeth, cynlluniau parcio am ddim)**
54.2	**B**	**Cymorth ariannol wedi'i deilwra (er enghraifft, hyfforddiant ariannol, cymorth benthyciadau myfyrwyr)**
54.3	**C**	**Teithio a threuliau (er enghraifft, lwfans cynhaliaeth, ad-dalu costau teithio)**
54.4	**D**	**Cymhellion ariannol (er enghraifft, cwnsela staff, cynlluniau llesiant)**
54.5	**E**	**Ddim yn Gwybod**
54.6	**F**	**Dim un o'r uchod: ni ddylid cynnwys buddiannau ychwanegol a chymorth ariannol**
54.7	**G**	**Arall**

Roedd 29 o'r ymatebwyr o'r farn mai opsiynau C a D oedd bwysicaf. Dewisodd 28 o'r ymatebwyr opsiwn A a dewisodd 19 opsiwn B.

Atebodd un ymatebydd "*Ddim yn gwybod*" i'r cwestiwn hwn.

Dewisodd naw ymatebydd opsiwn F, gydag un yn dewis opsiwn E.

Atebodd pum ymatebydd "*Arall*", gan ddadlau mai mater i gyflogwyr oedd ystyried unrhyw fuddiannau neu gymorth ariannol ychwanegol ac na ddylent fod yn rhan o ystyriaethau'r Corff Negodi ar gyfer cyflog teg. Gwnaethant ddadlau, yn amodol ar gyllid, mai ar godi cyflogau gweithwyr gofal cymdeithasol y dylai'r ffocws fod, a fyddai'n galluogi cyflogwyr i ganolbwyntio eu hymdrechion ar wella telerau ac amodau, safonau a denu a chadw staff. Roedd rhai o'r farn bod y rhain yn faterion tymor hwy nad oeddent yn flaenoriaeth i'r Corff Negodi.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 50 - 54:

Bydd ymatebion sy'n ymwneud â chyflog, telerau ac amodau yn helpu i lywio cylch gwaith y Corff Negodi a'i negodiadau yn y dyfodol. Er y bwriedir mai cyflog a thelerau ac amodau craidd dylai'r prif ffocws fod i ddechrau, nododd yr ymatebwyr ystod o faterion cyflogaeth ehangach y gallai fod angen eu hystyried lle ceir tystiolaeth y gallai gwneud hynny wella canlyniadau i'r gweithlu.

Rydym wedi nodi'r diddordeb cryf mewn materion megis llesiant y gweithlu, datblygu gyrfaoedd, recriwtio a chadw staff. I adlewyrchu hyn, bydd gan y Corff Negodi y disgresiwn i ystyried ystod ehangach o faterion y gweithlu lle bo'n briodol, gan gynnwys:

- tâl y gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol;

- telerau ac amodau cyflogaeth y gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol;
- hyfforddi a datblygu'r gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol;
- dilyniant gyrfa'r gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol;
- polisïau a gweithdrefnau adnoddau dynol sy'n ymwneud â phobl a diwylliant i'r graddau y maent yn gymwys i'r gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol; a
- buddion heblaw tâl y gweithwyr gofal cymdeithasol perthnasol (ariannol ac anariannol).

Mae hyn yn cydnabod y farn bod gwella apêl a chynaliadwyedd hirdymor cyflogaeth ym maes gofal cymdeithasol yn gofyn am fesurau y tu hwnt i gyflogau yn unig. Fodd bynnag, nid yw cynnwys y materion hyn o fewn cylch gwaith y Corff Negodi yn golygu y byddant yn rhan o bob cylch negodi. Bydd blaenoriaethau'n cael eu pennu gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, mewnbwn rhanddeiliaid ac ystyriaethau o ran adnoddau.

Mae rhai o'r materion a godwyd drwy'r ymgynghoriad y tu allan i rôl arfaethedig y Corff Negodi, a byddai'n well mynd i'r afael â nhw drwy fecanweithiau eraill, megis trefniadau comisiynu, rheoleiddio, cynllunio'r gweithlu neu'r gyfraith cyflogaeth bresennol. Bydd y materion hyn yn parhau i gael eu datblygu drwy'r sianeli polisi a'r sianeli gweithredol priodol.

C55 - Os oes unrhyw feysydd eraill y dylai'r Corff Negodi eu hystyried neu y dylid eu cynnwys yn ei gylch gwaith, rhowch fanylion yma. (Dewisol)

Ni atebodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, dim ond naw a wnaeth.

Roedd yr awgrymiadau gan y rhai a ymatebodd yn cynnwys sicrhau bod modd cyflawni unrhyw gytundeb yn ymarferol ar draws pob rhan o'r sector gofal cymdeithasol, o ficro-fentrau gofal i sefydliadau mawr, ac o gyrff annibynnol i gyrff yn y sector gwirfoddol. Roedd rhai o'r farn bod angen i'r Corff Negodi fod yn ymwybodol o effeithiau ei benderfyniadau ar sector mor amrywiol, gan sicrhau ei fod yn cydbwyso ei gasgliadau yn erbyn anghenion gorau'r gweithlu neu gynaliadwyedd gwasanaethau; gan mai dim ond os bydd comisiynwyr yn darparu ffioedd sy'n eu galluogi i wneud hynny y gall cyflogwyr ddarparu cyflogau uwch ac amodau gwell. Cafwyd galwadau i sicrhau bod llythyr cylch gwaith y Corff Negodi yn cyd-fynd â'r Fframwaith Comisiynu Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau hyn.

Roedd dau ymatebydd o'r farn y dylai llythyr cylch gwaith y Corff Negodi ganiatáu digon o hyblygrwydd i addasu i unrhyw faterion a allai godi ac mae angen eu hystyried.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Bydd y cyfarwyddyd a ddarperir i'r Corff Negodi drwy'r llythyr cylch gwaith yn gofyn i unrhyw negodiadau ystyried y sector gofal cymdeithasol amrywiol sydd gennym yma

yng Nghymru, a sicrhau bod unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn cael eu hystyried yn llawn fel rhan o unrhyw asesiad effaith.

C56 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r dull arfaethedig o ddatrys anghydfod, lle caiff anghydfodau eu sbarduno gan y cadeirydd a'u cyfeirio at ACAS fel y gellir eu datrys yn annibynnol? (Dewisol)

Roedd 27 o'r ymatebwyr naill ai'n "*Cytuno'n gryf*" (14) neu'n "*Cytuno*" (23) â'r dull arfaethedig o ddatrys anghydfodau. Roedd pob un yn cytuno bod gan ACAS y profiad, y didueddrwydd a'r annibyniaeth i helpu i gyrraedd datrysiad o'r fath.

Nododd chwe ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig. Roedd teimladau cymysg ynghylch y cynnig hwn, gydag un yn cwestiynu a allai arwain at weithredu diwydiannol ar y cyd yn y sector hwn, ac un arall yn ofni bod ACAS eisoes wedi'i orlwytho â materion o'r fath ac y gallai hyn gael effaith sylweddol ar Gytundebau Cyflog Teg.

Roedd dau ymatebydd naill ai'n "*Anghytuno*" (1) neu'n "*Anghytuno'n gryf*" â'r dull datrys arfaethedig; Atebodd tri ymatebydd "*Ddim yn gwybod;*" ac atebodd un "*Mae'n well gennyf beidio â dweud.*" Ni wnaeth yr un o'r ymatebwyr hyn ymhelaethu ar eu hateb.

Dewisodd naw ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Mae'r trefniadau arfaethedig ar gyfer datrys anghydfodau wedi'u cynllunio i gynorthwyo partïon sy'n negodi i ddod i gytundeb gan barchu egwyddor hunanbenderfyniad. Yn unol ag ymarfer cydfargeinio sefydledig, bydd y Corff Negodi yn gyfrifol am gytuno ar y gweithdrefnau datrys anghydfodau manwl drwy ei gylch gorchwyl, gan gynnwys unrhyw drefniadau sy'n ymwneud â phleidleisio a'r amgylchiadau lle gellir cyfeirio materion at ACAS.

Lle bydd materion yn codi yn ystod y broses negodi, bydd y cadeirydd annibynnol, yn y lle cyntaf, yn ceisio hwyluso deialog adeiladol rhwng y partïon a chefnogi ymdrechion i ddatrys unrhyw feysydd lle ceir anghytundeb. Os na ellir dod i gytundeb ac os na all y broses negodi symud yn ei blaen, gall y cadeirydd annibynnol geisio cymorth gan ACAS. Mae'r dull graddedig hwn yn darparu mecanwaith clir ar gyfer uwchgyfeirio lle bo angen, gan sicrhau bod atgyfeirio at ACAS yn parhau i fod yn gam eithriadol yn hytrach nag yn rhan arferol o'r broses negodi. Byddai cyfranogiad ACAS yn cynnig arbenigedd a chymorth annibynnol, yn unol ag ymarfer cydfargeinio cydnabyddedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod trefniadau datrys anghydfodau yn gweithredu mewn modd tryloyw a chymesur, a bod unrhyw ganlyniadau yn ymarferol ac yn gallu cael eu rhoi ar waith. Yn unol â hynny, cyn i unrhyw gytundeb gael ei gadarnhau, bydd Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried ei fforddiadwyedd a'r gallu i'w gyflawni, er mwyn sicrhau ei fod

yn gynaliadwy i'r sector ac yn cefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaethau gofal.

Mae'r pedwar cwestiwn nesaf yn ymwneud â chanllawiau a'r hyn y bydd ei angen ar sefydliadau a'r gweithlu gan y Corff Negodi i'w galluogi i roi Cytundebau Cyflog Teg ar waith yn effeithiol. Mae un ymateb cyfun gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn dilyn cwestiwn 60.

C57 - Yn eich barn chi, beth ddylai gael ei gynnwys mewn canllawiau a deunyddiau cyfathrebu i'ch helpu i roi Cytundebau Cyflog Teg ar waith? (Dewisol)

Nid atebodd 47 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd yr ymatebion yn canolbwyntio'n bennaf ar yr angen i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir a chryno, gan roi arweiniad pendant i ddarparwyr a chomisiynwyr ar sut i roi'r cytundeb ar waith, gan gynnwys enghreifftiau ymarferol o gymalau enghreifftiol ar gyfer cyflogaeth a chomisiynu, ynghyd ag amserlenni a thempledi, er mwyn lleihau unrhyw amwysedd a sicrhau mwy o gysondeb. Byddai hyn yn rhoi hyder i bob parti fod rolau darparwyr a chomisiynwyr wedi'u diffinio'n glir, ac yn lleddfu pryderon y gallai'r cytundeb gael ei roi ar waith mewn ffordd anghyson, y gallai fod oedi wrth ei weithredu neu y gallai fod yn destun anghydfod.

Galwodd sawl ymatebydd am gyfathrebu clir a chryno wedi'i dargedu'n benodol at bob grŵp, gan gynnwys egluro'r cytundebau a sut maent wedi'u rhannu'n elfennau er mwyn helpu i'w rhoi ar waith. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod angen pwynt cyswllt pwrpasol i roi cyngor ar ymholiadau cymhleth ynghylch cwmpas cytundebau.

C58 - A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Llywodraeth Cymru a'r Corff Negodi gydweithio i lunio a chyhoeddi canllawiau? (Dewisol)

Roedd 36 o'r ymatebwyr naill ai'n "*Cytuno'n Gryf*" (11) neu'n "*Cytuno*" (25) â'r cynnig hwn, gan ddatgan y byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb a meithrin ymddiriedaeth fel dogfen awdurdodol. Galwodd rhai ymatebwyr am gynnwys penodol wedi'i deilwra ar gyfer busnesau bach a chanolig, cyflogwyr cynorthwywyr personol, cynghorau, cyflogwyr ym maes gofal cartref, ac ati, ac am sicrhau bod unrhyw ganllawiau'n cyd-fynd â chylchoedd comisiynu a chyllidebu.

Nododd pum ymatebydd nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r cynnig.

Roedd tri ymatebydd naill ai'n "*Anghytuno*" (1) neu'n "*Anghytuno'n gryf*" (2) â'r cynnig hwn. Roedd dau ymatebydd yn anghytuno â'r cynigion, gan nodi na ddylai Llywodraeth Cymru fwrw ymlaen â chynigion o'r fath os na all ariannu unrhyw newidiadau.

Atebodd dau ymatebydd "*Ddim yn gwybod*" i'r cwestiwn hwn.

C59 - Canllawiau ar beth sydd ei angen arnoch i'ch helpu chi neu'ch sefydliad i gydymffurfio â Chytundeb Cyflog Teg? (Dewisol)

Nid atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn.

Roedd sawl ymatebydd yn dadlau, er mwyn cydymffurfio â'r Cynllun Cyflog Teg yn ymarferol, y byddai angen canllawiau ymarferol, cyson, clir a chryno ar gyflogwyr a chomisiynwyr, sy'n canolbwyntio ar weithredu yn hytrach na bwriad polisi. Roeddent o'r farn bod angen i gwmpas unrhyw Gytundeb Cyflog Teg fod yn glir ac wedi'i ymgorffori yn y trefniadau comisiynu. Byddai hyn yn egluro sut y byddai unrhyw gyflog ac amodau y cytunwyd arnynt yn cael eu trosi'n gyfraddau fesul awr, ac y dylai'r cyfraddau hynny gael eu hadlewyrchu mewn cyfraddau comisiynu, amrywiadau contract a threfniadau prynu yn ôl y galw, er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei ddarparu i alluogi cydymffurfiaeth. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai'r canllawiau hefyd gynnwys yr hyn a ddisgwylir o ran cydymffurfio a'r camau gorfodi a fyddai'n deillio o beidio â chydymffurfio.

Roedd rhai o'r farn bod angen amserlen glir a oedd yn cyd-fynd â chylchoedd comisiynu, adroddiadau'r gyflogres ac yn cynnwys rhestrau gwirio hunanasesu. Byddai'r rhain yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn meithrin cysondeb ar lefel ymarferol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws tirwedd darparwyr dameidiog.

Roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y byddai sicrhau bod digon o gyllid wedi'i glustnodi ar gyfer cyflawni Cytundebau Cyflog Teg, ochr yn ochr â diwygio'r drefn comisiynu, yn sicrhau cydymffurfiaeth.

C60 - Rhannwch unrhyw safbwyntiau neu sylwadau eraill am ba gymorth sydd ei angen ar ddarparwyr a chomisiynwyr gofal i gydymffurfio â Chytundeb Cyflog Teg. (Dewisol)

Nid atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn.

O blith y rhai a wnaeth ateb, tynnodd nifer sylw at yr angen am gyllid digonol i sicrhau bod comisiynwyr yn gallu rhoi'r Cytundebau Cyflog Teg a negodwyd ar waith ar gyfer pob darparwr. Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r cyllid gael ei dalu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i bob darparwr.

Tynnwyd sylw unwaith eto at yr angen am gyfathrebu clir, cyson ac amserol yn dilyn cadarnhau unrhyw gytundeb, gan gynnwys crynodebau o'r disgwyliadau ac amserlenni gweithredu sy'n caniatáu hyblygrwydd i wasanaethau llai a phwrpasol gydymffurfio. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig i gomisiynwyr, fel y gallant gyllidebu, adolygu contractau ac addasu cyfraddau ffioedd mewn ffordd drefnus ac amserol i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl. Roedd un ymatebydd o'r farn y byddai amlinelliad clir sut y byddai cydymffurfiaeth yn cael ei hasesu hefyd yn fuddiol, ac roedd un arall o'r farn y dylai camau gorfodi gynnwys cymorth, deialog a chamau cywirol yn y lle cyntaf yn hytrach na sancsiynau uniongyrchol.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw at y ffaith y byddai cydymffurfiaeth yn dibynnu ar gysoni trefniadau comisiynu, cyllid a chanllawiau, a mynegwyd pryderon y gallai lefelau ffioedd annigonol atal cyflogwyr rhag cyflawni eu rhwymedigaethau. Galwodd rhai am ddiwygio'r drefn comisiynu neu Gontract Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal er mwyn lleihau amrywiadau rhanbarthol a chefnogi gweithredu cyson. Roedd awgrymiadau ychwanegol yn cynnwys diffiniadau cliriach o rolau a chyfrifoldebau gorfodi o fewn tirwedd reoliadol Cymru er mwyn osgoi disgwyliadau gwrthgyferbyniol, a chreu porth tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru i rannu rhagdybiaethau cost, asesiadau effaith, templedi a chanllawiau.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 57 i 60:

Yn seiliedig ar yr ymatebion a ddaw i law, bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r Corff Negodi ac yn cynhyrchu canllawiau a chyfathrebiadau perthnasol i gefnogi'r broses o weithredu Cytundeb Cyflog Teg.

Yn ogystal, byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid yn y sector a sefydliadau perthnasol eraill, megis yr Asiantaeth Gwaith Teg a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, er mwyn datblygu'r canllawiau a'r deunydd cyfathrebu ar gyfer ystod eang o grwpiau sy'n ymwneud â rhoi Cytundebau Cyflog Teg ar waith. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau'n darparu cymorth a chyfarwyddyd priodol i weithwyr, cyflogwyr ac awdurdodau lleol fel eu bod yn deall beth mae cytundeb yn ei olygu iddynt - gan gynnwys cynnal asesiadau manwl o effeithiau posibl lle bo angen - a'r camau y mae'n rhaid iddynt eu cymryd i'w roi ar waith.

C61 - Rhannwch unrhyw safbwyntiau neu wybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd i ddatrys anghydfodau a chwynion am gontractau cyflogaeth, cyflog neu amodau gweithio. Os oes unrhyw newidiadau y dylid eu gwneud i'r prosesau hyn yn eich barn chi, nodwch y rhain yn eich ymateb. (Dewisol)

Nid atebodd 49 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Roedd nifer o'r rhai a ymatebodd o'r farn bod llwybrau sefydledig eisoes ar waith ar gyfer datrys anghydfodau, ac roedd pryder y byddai ychwanegu mecanwaith ychwanegol yn dyblygu ymdrechion gan arwain at fwy o oedi. Fodd bynnag, roedd rhai yn cydnabod y gellid symleiddio'r llwybrau presennol er mwyn helpu i sicrhau penderfyniadau cynnar ac osgoi tarfu ar weithrediadau. Tynnodd rhai sylw at y croniad mawr o achosion yn y system eisoes. Dadleuodd un ymatebydd nad oedd llwybr y tribiwnlys yn benodol yn gweddu i ddelio â gofal cymdeithasol, gan nad oedd yn deall y sector na'i gymhlethdodau.

Roedd sawl un o'r farn bod y broses bresennol o gydymffurfio â chontractau cyflogaeth ym maes gofal cymdeithasol a'u gorfodi yn annigonol a bod angen ei diwygio. Roedd rhai o'r farn mai comisiynwyr oedd yn bennaf gyfrifol am hyn, naill ai drwy ddarparu cyllid annigonol ac anghyson, a oedd yn golygu bod yn rhaid i gyflogwyr dalu'r gwahaniaeth mewn cyflogau ar gyfer pethau fel y Cyflog Byw Gwirioneddol; neu drwy fethu â monitro'r broses o gyflawni contractau'n ddigonol.

Ymateb Llywodraeth Cymru:

Byddwn yn ystyried y safbwyntiau hyn wrth weithio gydag ACAS i ddatblygu'r broses, gan sicrhau proses symlach i bawb sy'n gweithio'n effeithlon.

Mae'r ddau gwestiwn nesaf yn gofyn am grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae un ymateb cyfunol gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn dilyn cwestiwn 63.

C62. Yn eich barn chi, a oes unrhyw grwpiau o bobl, fel y rhai â nodweddion gwarchodedig (ymhlith grwpiau eraill), y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith gadarnhaol arnynt?

Ni atebodd 12 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 12 yn dweud "*Nac oes*" a 21 yn ateb "*Ddim yn gwybod*".

Atebodd 17 o'r ymatebwyr y byddai'r cynigion o fudd i bobl â nodweddion gwarchodedig amrywiol.

O'r rhai a ymhelaethodd ar eu hymateb, roedd y rhan fwyaf yn ystyried bod y newidiadau'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar draws y gweithlu, gan ymestyn y tu hwnt i gyflog ac amodau ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys menywod, gweithwyr hŷn a lleiafrifoedd ethnig. Roedd yr ymatebwyr yn ystyried hyn yn gyfle i gydnabod sgiliau a gwerth y gweithlu, cefnogi llwybrau gyrfa cliriach, a hyrwyddo mwy o gydraddoldeb a thegwch ym mhob rhan o'r sector. Tynnodd llawer o'r ymatebwyr sylw hefyd at botensial Cytundebau Cyflog Teg i wella'r gallu i recriwtio a chadw staff, codi proffil gweithwyr gofal, a lleihau gwahaniaethau rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Nododd un ymatebydd y gallai gwell sefydlogrwydd yn y gweithlu hefyd fod o fudd anuniongyrchol i ofalwyr di-dâl drwy sicrhau mwy o barhad o ran cymorth.

Awgrymodd rhai ymatebwyr ymhellach y gallai'r dystiolaeth a gesglir drwy negodiadau'r Cynllun Cyflog Teg gryfhau'r data am y gweithlu, gan helpu i lywio negodiadau yn y dyfodol a chefnogi'r gwaith o fonitro anghydraddoldebau.

C63. A oes unrhyw grwpiau o bobl, fel y rhai â nodweddion gwarchodedig (ymhlith grwpiau eraill), y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael effaith negyddol arnynt?

Nid atebodd 41 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn.

Atebodd 18 o'r ymatebwyr naill ai "*Nac oes*" neu "*Ddim yn gwybod*"

Atebodd tri ymatebydd *"Oes"* i'r cwestiwn hwn. Mynegodd y rhai a ymhelaethodd ar hyn bryderon y gallai diffyg cyllid digonol effeithio'n negyddol ar bobl hŷn a phobl anabl sy'n cael gofal a ariennir yn gyhoeddus os na fydd darparwyr gofal cymdeithasol yn gallu ateb y galw cynyddol. Mynegwyd pryderon hefyd y gallai gwahaniaethau mewn Cytundebau Cyflog Teg rhwng Cymru a Lloegr gynyddu'r

gystadleuaeth am weithwyr a gwaethygu'r heriau presennol o ran recriwtio a chadw staff. Tynnodd yr ymatebwyr sylw ymhellach at effeithiau anuniongyrchol posibl ar ofalwyr di-dâl, a allai orfod lleihau neu adael eu cyflogaeth am dâl os daw gwasanaethau gofal yn llai hygyrch neu'n fwy costus.

Nododd yr ymatebwyr hefyd effeithiau andwyol posibl ar bobl hŷn ac anabl sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar gostau gofal uwch yn cael eu trosglwyddo drwy ffioedd gwasanaeth uwch, gan roi pwysau ariannol ychwanegol ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ac o bosibl arwain at fwy o alw am gymorth a ariennir yn gyhoeddus yn y dyfodol.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 62 a 63

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i gwestiynau 62 a 63 fel rhan o'n proses asesu effaith ehangach wrth osod rheoliadau, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil unrhyw Gytundeb Cyflog Teg y cytunir arno.

Mae'r ddau gwestiwn nesaf yn gofyn am yr effaith ar y Gymraeg. Mae un ymateb cyfunol gan Lywodraeth Cymru wedi'i gynnwys yn dilyn cwestiwn 65.

C64. Yn eich barn chi, pa effaith, os o gwbl, y gallai sefydlu corff negodi gofal cymdeithasol i benderfynu ar Gytundebau Cyflog Teg ei chael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Nid atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn. Atebodd tri ymatebydd "*Ddim yn gwybod*", a dywedodd tri arall na fyddai unrhyw effaith.

Canolbwyntiodd gweddill yr ymatebwyr ar bwysigrwydd sicrhau bod canllawiau a pholisïau ar gael yn ddwyieithog er mwyn hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb, gan gefnogi pobl â dementia a'r rhai sy'n derbyn gofal diwedd oes hefyd. Tynnodd yr ymatebwyr sylw hefyd at y potensial i'r cynigion ddenu a chadw mwy o siaradwyr Cymraeg yn y sector, yn enwedig pe bai cymhellion datblygu proffesiynol yn cydnabod sgiliau Cymraeg ac yn cael eu cefnogi gan fwy o gyllid ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant.

Roedd rhai hefyd o'r farn y gallai Cytundebau Cyflog Teg sydd wedi'u hariannu'n iawn, sy'n adlewyrchu gwir gost gofal, helpu i gadw gweithwyr sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd gwledig a helpu i ehangu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Awgrymodd nifer bach o'r ymatebwyr y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i wella addysg ym meysydd mathemateg a gwyddoniaeth nag i ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag iaith.

C65 A allai'r gwaith o ddatblygu corff negodi gofal cymdeithasol gael ei ddylunio neu'i addasu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Nid atebodd 50 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn ac atebodd tri “*Na allai*”. Tynnodd y rhai a ymatebodd sylw at safbwyntiau gwahanol ynghylch rôl y Corff Negodi mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda rhai'n dadlau y dylai ei gylch gwaith adlewyrchu deddfwriaeth ynglŷn â'r Gymraeg ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru, ac eraill yn mynegi pryderon o ran y costau i gyflogwyr.

Roedd yr ymatebion yn cefnogi cynnwys mesurau i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac ar draws y sector gofal cymdeithasol, gan gynnwys sicrhau bod digon o staff dwyieithog i ddarparu gwasanaethau ac adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol. Awgrymodd yr ymatebwyr hefyd y dylai'r Corff Negodi hyrwyddo a monitro'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn sicrhau nad yw Cytundebau Cyflog Teg yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau gwledig a chymunedau Cymraeg eu hiaith, ochr yn ochr â galw am gymorth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant iaith Gymraeg.

Ymateb Llywodraeth Cymru i gwestiynau 64 a 65

Byddwn yn ystyried yr ymatebion i gwestiynau 64 a 65 wrth gynnal ein hasesiad ehangach o'r effaith ar y Gymraeg, ochr yn ochr â gosod y rheoliadau ar gyfer sefydlu'r Corff Negodi.

C66 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Ni wnaeth 46 o'r ymatebwyr ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol yma. Manteisiodd llawer o'r rhai a wnaeth ddarparu sylwadau ar y cyfle i ailbwysleisio pwyntiau a wnaed mewn mannau eraill yn eu hymateb ynghylch cydnabod amrywiaeth y sector gofal cymdeithasol, ac ystyried meysydd arbenigol megis gofal dementia, tâl salwch a chydnabod nyrsys ym maes gofal cymdeithasol.

Mynegwyd pryderon ynghylch goblygiadau ariannol a gweithredol posibl Cytundebau Cyflog Teg, yn enwedig i ddarparwyr llai a'r sector gwirfoddol. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cyllid digonol a chynaliadwy, ffioedd comisiynu sy'n adlewyrchu gwir gost gofal, a chysondeb rhwng gofynion y Cytundeb Cyflog Teg a threfniadau comisiynu, er mwyn osgoi effeithiau anfwriadol ar hyfywedd gwasanaethau. Cafwyd galwadau hefyd am gynrychiolaeth gan lywodraeth leol ar y Corff Negodi, o ystyried ei gyfrifoldebau comisiynu a statudol.

Nododd yr ymatebion ymhellach yr angen i osgoi mesurau a allai roi darparwyr sydd eisoes yn cynnig telerau uwchlaw'r safonau gofynnol y cytunwyd arnynt dan anfantais, a phwysleisiwyd y dylai Cytundebau Cyflog Teg gefnogi uchelgais cyflogwyr i wobrwyo a datblygu eu gweithlu, yn hytrach na chyfyngu ar yr uchelgais honno.

Casgliad/Camau Nesaf

Bu'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn amhrisiadwy wrth lunio cyfeiriad y Corff Negodi ar gyfer y dyfodol ac wrth lywio'r gwaith o ystyried y materion cymhleth y bydd angen iddo fynd i'r afael â nhw. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i gyfrannu. Bydd eu barn a'u mewnwelediadau yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth i'r gwaith fynd rhagddo, a bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn parhau i fod yn bwynt cyfeirio allweddol wrth lywio'r gwaith o ddatblygu rheoliadau, yn ogystal â chylch gwaith, blaenoriaethau a rhaglen waith y Corff Negodi ar gyfer y dyfodol.